



Gronfa Amcwyddol Ewrop ar gyfer Catalygi
Gwledig Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development/Europe Investing in
Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Glastir

Glastir Uwch

Llyfryn Rheolau 2: Cod y Fferm Gyfan ac Opsiynau Rheoli

Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014–2020



Cynnwys

Cyflwyniad	7
Adran A – Cod Y Fferm Gyfan	9
Gofynion Cyfreithiol a Chaniatâd	9
Rheolau sy'n berthnasol i'r holl dir (gan gynnwys tir cynefin)	9
Rheolau sy'n berthnasol i'r holl dir cynefin.....	13
Adran B – Opsiynau Rheoli	17
Opsiw 5 – Amodau manylach ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr).....	17
Opsiw 14 – Ymrwymo i chwistrellu 100% o'r slyri	19
Opsiw 14b – Ymrwymo i chwistrellu 75% o'r slyri	20
Opsiw 15 – Tir pori parhaol heb fewnbynau	21
Opsiw 15c – Tir pori parhaol heb unrhyw fewnbynau a phori cymysg	22
Opsiw 19 – Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel	23
Opsiw 19b – Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel â phori cymysg	24
Opsiw 20 – Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad	25
Opsiw 20b – Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad â phori cymysg	27
Opsiw 21 – Rheoli morfeydd heli sy'n cael eu pori	29
Opsiw 21b – Rheoli morfeydd heli sy'n cael eu pori â phori cymysg	30
Opsiw 22 – Cynnal gweirgloddiau.....	31
Opsiw 25 – Rheoli twyni tywod	32
Opsiw 25b – Rheoli twyni tywod â phori cymysg	33
Opsiw 27 – Ymylon o wyndwn	34
Opsiw 28 – Cadw sofr dros y gaeaf	35
Opsiw 30 – Ydau gwanwyn neu godlysiau heb eu chwistrellu	36
Opsiw 31 – Ydau gwanwyn heb eu chwistrellu, gyda sofr dros y gaeaf	37
Opsiw 32b – Plannu gwreiddgnydau heb eu chwistrellu ar dir wedi'i wella heb ddrilio	39
Opsiw 33 – Cnwd gorchudd i anifeiliaid gwyllt ar dir wedi'i wella	41
Opsiw 34 – Talar o yd heb ei gynaeafu	43
Opsiw 34b – Talar o yd heb ei wrteithio nai'i chwistrellu	44
Opsiw 37 – Bridiau Prydeinig brodorol prin.....	45
Opsiw 41A – Rheoli'r pori ar dir agored	48
Opsiw 41B – Rheoli'r pori ar dir agored â phori cymysg	49

Opsiwn 100 – Coetir di–stoc.....	50
Opsiwn 101 – Sefydlu coed a prysgwydd trwy blannu.....	51
Opsiwn 102 – Sefydlu coed a prysgwydd trwy aildyfiant naturiol.....	52
Opsiwn 103 – Prysgwydd di–stoc.....	53
Opsiwn 104 – Coetir pori	54
Opsiwn 106 – Parciau a gerddi hanesyddol	56
Opsiwn 109 – Glaswelltir metelaidd.....	58
Opsiwn 115 – Gweundir sych ar lawr gwlad gyda llai na 50% yn eithin man.....	59
Opsiwn 116 – Gweundir sych ar lawr gwlad gyda mwy na 50% yn eithin man.....	61
Opsiwn 117 – Gweundir gwlyb ar lawr gwlad gyda llai na 60% yn laswellt y gweunydd	63
Opsiwn 118 – Gweundir gwlyb ar lawr gwlad gyda mwy na 60% yn laswellt y gweunydd	65
Opsiwn 119 – Sefydlu gweundir ar lawr gwlad ar laswelltir	67
Opsiwn 120 – Rheoli glaswelltir asidig heb ei wella ar lawr gwlad.....	69
Opsiwn 121 – Adfer glaswelltir asidig heb ei wella ar lawr gwlad yn dir pori.....	71
Opsiwn 122 – Adfer glaswelltir asidig heb ei wella ar lawr gwlad yn gaeau gwair	73
Opsiwn 123 – Glaswelltir niwtral heb ei wella ar lawr gwlad; tir pori	75
Opsiwn 124 – Glaswelltir niwtral heb ei wella ar lawr gwlad; gweirglodd.....	77
Opsiwn 125 – Adfer glaswelltir niwtral heb ei wella ar lawr gwlad yn dir pori.....	79
Opsiwn 126 – Adfer glaswelltir niwtral heb ei wella ar lawr gwlad yn gaeau gwair	81
Opsiwn 128 – Glaswelltir calchaid heb ei wella ar iseldir.....	83
Opsiwn 129 – Adfer glaswelltir calchaid heb ei wella ar iseldir yn dir pori	85
Opsiwn 130 – Adfer glaswelltir calchaid heb ei wella ar iseldir; yn gaeau gwair	87
Opsiwn 131 – Troi tir âr yn dir pori parhaol (heb ei wrteithio)	89
Opsiwn 132 – Troi glaswelltir wedi'i wella yn laswelltir wedi'i led–wella (caeau gwair).....	90
Opsiwn 133 – Glaswelltir gwlyb ar lawr gwlad	92
Opsiwn 134 – Adfer glaswelltir gwlyb ar lawr gwlad yn dir pori.....	93
Opsiwn 139 – Mawnogydd yr iseldir a chorsydd asidig eraill gyda llai na 50% yn laswellt y gweunydd.....	94
Opsiwn 140 – Mawnogydd yr iseldir a chorsydd asidig eraill gyda mwy na 50% yn laswellt y gweunydd.....	96
Opsiwn 141 – Adfer mawnogydd yr iseldir a chorsydd asidig eraill (dim pori)	98

Opsiwn 142 – Adfer mawnogydd yr iseldir a chorsydd asidig eraill yn dir pori.....	99
Opsiwn 143 – Ffen yr iseldir	101
Opsiwn 144 – Adfer ffen yr iseldir (dim pori).....	102
Opsiwn 145 – Adfer ffen yr iseldir yn dir pori	103
Opsiwn 146 – Gwelyau cyrs di–stoc.....	104
Opsiwn 147 – Creu gwelyau cyrs	105
Opsiwn 148 – Glaswelltir yr arfordir (clogwyni a llethrau arforol)	106
Opsiwn 149 – Adfer morfa heli (dim pori)	107
Opsiwn 150 – Creu morfa heli	109
Opsiwn 151 – Creu graean arfordirol a thwyni tywod â llystyfiant.....	111
Opsiwn 153 – Gwyndwn o feillion coch	113
Opsiwn 155 – Rheoli maethynnau’n well trwy gynllunio a chodi samplau pridd .	114
Opsiwn 156 – Lleiniau clustogi o borfa i rwystro erydiad ac i ddal dŵr ffo	115
Opsiwn 157 – Lleiniau clustogi o borfa i rwystro erydiad ac i ddal dŵr ffo; tirwedd ffosydd	116
Opsiwn 158 – Lleiniau clustogi i rwystro erydiad ac i ddal dŵr ffo ar dir wedi’i aredig.....	117
Opsiwn 159 – Rheoli glaswelltir heb fewnbynnau rhwng 15 Hydref a 31 Ionawr	118
Opsiwn 160 – Dim calch ar dir wedi’i wella na glaswelltir wedi’i led–wella ar briddoedd mawn	120
Opsiwn 161 – Rheoli glaswelltir ar gyfer y frân goesgoch (bwydo).....	121
Opsiwn 162 – Cnwd ŷd yr hydref heb ei chwistrellu ar gyfer bras yr ŷd (nythu a bwydo)	122
Opsiwn 163 – Cnwd haid gwanwyn heb ei chwistrellu ar gyfer bras yr ŷd (nythu & bwydo)	123
Opsiwn 164 – Rheoli glaswelltir er lles y gylfinir (nythu a bwydo cywion)	125
Opsiwn 165 – Rheoli glaswelltir er lles y gylfinir (bwydo).....	127
Opsiwn 166 – Rheoli gweirgloddiau er lles y gylfinir (nythu).....	129
Opsiwn 167 – Rheoli glaswelltir er lles y cwtiad aur (bwydo).....	131
Opsiwn 168 – Rheoli tir er lles y gornchwiglen (bwydo a nythu).....	133
Opsiwn 169 – Cnydau ŷd gwanwyn, rēp had olew, had llin neu fwstard er lles y gornchwiglen (nythu)	135
Opsiwn 170 – Lleiniau gwyndwn er lles y gornchwiglen (nythu)	136
Opsiwn 171 – Rheoli tir er lles mwyalchen y mynydd (bwydo)	137

Opsiwn 172 – Rheoli Perllan	139
Opsiwn 173 – Rheoli coridor nant.....	141
Opsiwn 174 – Llain glustogi o borfa arw i rwystro erydiad ac i ddal dŵr ffo ar dir o dan gnwd âr	142
Opsiwn 175 – Rheoli porfa arw; tir wedi'i hamgáu	143
Opsiwn 176 – Coetir – Pori ysgafn	145
Opsiwn 400 – Taliad rheoli ychwanegol; rheoli stoc	147
Opsiwn 401 – Taliad rheoli ychwanegol; pori cymysg	148
Opsiwn 402 – Taliad rheoli ychwanegol; rheoli llosgi.....	149
Opsiwn 403 – Taliad rheoli ychwanegol; ailwlychu	150
Opsiwn 404 – Taliad rheoli ychwanegol; ailwlychu (tir wedi'i wella).....	151
Opsiwn 405 – Taliad rheoli ychwanegol; pori er lles infertebratau mewn tail	152
Opsiwn 411 – Taliad rheoli ychwanegol; lleihau lefelau stocio	153
Atodiad 1 – Sut i ddweud y gwahaniaeth rhwng tir cynefin a thir wedi'i wella	154
Atodiad 2 – Tablau Cryno Cod y Fferm Gyfan ac Opsiynau Rheoli, Cyfradd Dalu ac Uned	157

Cyflwyniad

Mae'r rhestr isod yn rhestru Cod y Fferm Gyfan a'r Opsiynau Rheoli sydd ar gael o dan Glastir Uwch ac yn disgrifio'r hyn y bydd gofyn ichi ei wneud os byddwch yn eu cynnwys yn eich contract. Mae rhai Opsiynau Rheoli yn gofyn ichi greu cynefinoedd ac mae rhai eraill yn gofyn ichi reoli cynefinoedd a nodweddion sy'n bod eisoes. Mae yna Opsiynau Rheoli ar gyfer eu cynnal ar dir wedi'i wella hefyd.

Dim ond yr Opsiynau Rheoli sy'n cyfrannu at wireddu'r amcanion y cafodd y fferm ei dewis o'u herwydd y gallwch eu cynnwys yn eich contract Glastir Uwch.

Nid yw'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cymeradwyo Cod y Fferm Gyfan, yr Opsiynau Rheoli na'r cyfraddau talu eto a gallai'r gymeradwyaeth pan ddaw olygu eu newid.

Dewiswch God y Fferm Gyfan a'r Opsiynau Rheoli rydych am eu gweld drwy glicio ar rif y dudalen berthnasol yn y rhestr isod. Fel arall, fe allwch sgorio drwy'r ddogfen i gyrraedd y tudalennau sydd eu hangen arnoch.

Cofiwch mai taliad haenog yw Cod y Fferm Gyfan a bod cap arno o 100 hectar ond bod rhaid cadw at holl ofynion y Cod ar holl Dir y Contract.

Mae'r rhestr Opsiynau Rheoli yn y ddogfen hon yn un gyflawn ond nid yw'n rhestru'r Opsiynau Rheoli sydd ar gael o dan Glastir Sylfaenol yn unig.

Adran A – Cod Y Fferm Gyfan

Rhaid cadw at y reolau canlynol ar yr holl dir sy'n dod o dan contract Glastir Uwch.

Gofynion Cyfreithiol a Chaniatâd

Cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a chael y caniatâd angenrheidiol yn ôl y gofyn.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr holl ofynion cyfreithiol yn cael eu hateb a'ch bod wedi cael pob caniatâd angenrheidiol cyn dechrau ar unrhyw Waith Cyfalaf ac Opsiynau Rheoli.

Rheolau sy'n berthnasol i'r holl dir (gan gynnwys tir cynefin)

Peidiwch â chloddio craig, sgri, tywod, graean, cerrig mân, clai na mawn ac eithrio lle bo gennych ganiatâd cynllunio eisoes neu lle gellwch brofi nad oes gofyn ichi gael caniatâd cynllunio

Peidiwch â llosgi llystyfiant ar graig na safleoedd archeolegol.

Rhaid cadw cofnodion ar gyfer pob cae unigol ynghylch y tail buarth, slyri, gwrtaith anorganig, gwrtaith organig, gwymon calchog, calch, slwtsh carthion, slwtsh papur gwastraff, gwastraff y fferm a gwastraff o'r tu allan i'r fferm, plaladdwyr neu chwynladdwyr sy'n cael ei roi arno.

Rhaid ichi gadw cofnod papur neu electronig cyfoes o'r defnydd a wneir o'r uchod ar bob parcel unigol sydd yn y Contract Glastir hwn dros gyfnod llawn y Contract. Rhaid cadw'r cofnodion am ddeng mlynedd llawn ar ôl talu'r taliad olaf. Bydd y cofnod hwn yn ffurfio rhan o'r Dyddiadur Gwaith.

Peidiwch ag aredig na thrin unrhyw dir o fewn 2 fetr i gwrs dŵr neu gynefin gwlyb.

Peidiwch â rhoi tail da byw na dŵr budr ar bridd sydd wedi rhewi'n galed neu sy'n ddwrlawn.

Ystyr 'wedi rhewi'n galed' yw pridd sydd wedi'i rewi am fwy na 12 awr. Nid yw dyddiau pan fydd pridd yn rhewi dros nos ond sy'n dadmer yn ystod y dydd yn cyfrif.

Rhaid peidio â storio tail, silwair na gwastraff arall y fferm mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd (risg o 1 mewn 100 mlynedd yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru) nac ar lethr o fwy na 7°.

Eithriad i hyn yw pan fydd mwy na 90% o'r daliad o fewn yr ardaloedd hyn. Bryd hynny, rhaid gofyn i Lywodraeth Cymru am gyngor ar le storio addas a dilyn y cyngor hwnnw.

Os ydych yn tyfu indrawn, rhaid ichi leihau'r perygl o erydiad pridd trwy gadw at un o'r arferion canlynol:

- i. Troi'r pridd ar ôl y cynhaeaf ag aradr gynion rhag iddo gywasgu
- ii. Hau rhygwellt o dan yr indrawn
- iii. Chwalu tir sydd wedi'i gywasgu gan olwynion tractor â phigyn a phlannu gorchudd gaeaf.

Rhaid cofnodi'r gwaith trin a ddewisir yn y Dyddiadur Gwaith.

Hefyd, ar lethrau o fwy na 7° sy'n risg uchel yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru a ger cwrs dŵr, rhaid ichi gadw llain glustogi sydd o leiaf 2 fetr o led wrth droed y cae. Darn o dir yw llain glustogi sy'n cael ei adael heb ei drin rhwng ffin y cnwd a'r cwrs dŵr. Dylai'r llain glustogi fod yn ddigon llydan i rwystro gwaddodion rhag cael eu golchi oddi ar y cae i mewn i'r cwrs dŵr.

Peidiwch â chyflwyno unrhyw anifail neu blanhigyn anfredorol ar dir y Contract, heblaw at ddiben cynhyrchu amaethyddol (gan gynnwys anifeiliaid hela) neu gynhyrchu coed masnachol.

Diogelwch hen goed a choed mewn caeau.

Mae'n bwysig cadw coed am eu bod yn rhan o gymeriad a natur y dirwedd ac yn werthfawr i fywyd gwyllt, hyd yn oed pan fyddant wedi marw neu'n heintiedig

Peidiwch â niweidio coed, er enghraifft drwy drin y tir yn rhy agos at eu gwreiddiau. Diogelwch hwy rhag drifft chwynladdwyr. Peidiwch â thrin y tir o dan y canopi.

Os gwelwch fod coeden neu ran o goeden farw neu heintiedig yn beryglus, cewch ei thorri. Ystyr peryglus yn yr achos hwn yw ei bod yn ddigon agos i lwybr fel y gallai

deunydd sy'n cwmpo oddi arni gau'r llwybr neu ei bod yn ddigon agos i lwybr mynediad neu adeilad arall fel y gallai canghennau gwmpo arnyn nhw a'u difrodi.

Gellir ystyried bod coed sy'n tyfu ar adeiladau fferm traddodiadol a choed ansefydlog neu heintiedig sy'n tyfu ar nodweddion archeolegol yn beryglus hefyd os oes posibilrwydd y gallai'r goeden gwmpo a difrodi'r nodwedd hanesyddol.

Pan fyddwch yn torri coeden sy'n berygl neu ran ohoni, bydd gofyn i chi dynnu llun ohoni a'i gadw i brofi ei fod yn beryglus a'i ddangos os gofynnir ichi wneud hynny.

Cadwch adeiladau traddodiadol a'u holion.

Rhaid cadw adeiladau traddodiadol a'u holion, waeth beth yw eu cyflwr oni bai eu bod yn beryglus.

Ystyr peryglus yn yr achos hwn yw bod yr adeilad yn ddigon agos i lwybr cyhoeddus neu lwybr â chaniatâd fel y gallai deunydd sy'n cwmpo oddi arno gau'r llwybr neu ei fod yn ddigon agos i lwybr mynediad neu adeilad arall fel y gallai deunydd sy'n cwmpo oddi arno achosi difrod.

Pan fyddwch yn dymchwel adeilad traddodiadol neu ran ohono sydd yn eich barn chi yn beryglus, bydd gofyn ichi dynnu llun ohono a'i gadw i brofi ei fod yn beryglus a dangos y llun os gofynnir ichi wneud hynny.

Rhaid cynnal arolwg ystlumod cyn dymchwel neu newid yr adeilad, rhaid cadw tystiolaeth bod yr arolwg wedi'i gynnal a rhaid ei ddangos pan ofynnir amdano.

Peidiwch â difrodi unrhyw Heneb Restredig neu Heneb sydd heb ei Rhestru sydd wedi'i nodi ar Fap y Contract.

Mae difrod yn golygu unrhyw un o'r canlynol:

- Tarfu ar y pridd neu dyrchu'r uwchbridd.
- Dympio neu storio deunydd ar ben y nodwedd, gan gynnwys creu storfa dros dro.
- Codi deunydd gan gynnwys cerrig, pridd neu isbridd o'r nodwedd.

- Arwyddion amlwg o erydu (colli a thyrchu uwchbridd neu isbridd) gan anifeiliaid a cherbydau neu waith amaethyddol.
- Plannu coed ar y nodwedd (ac eithrio plannu coed ‘tebyg am eu tebyg’ yn lle coed eraill mewn tir parc dynodedig).
- Caniatáu i brysgwydd ddatblygu.
- Aredig neu ail-hau.
- Symud nodweddion cerrig unigol.

Rhaid peidio â difrodi na tharfu ar unrhyw “Barc Hanesyddol” neu “Ardd Hanesyddol” sydd ar y Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol. Mae difrod yn golygu unrhyw un o’r canlynol:

- Clirio cynlluniau plannu hanesyddol sydd wedi’u nodi ar y Gofrestr.
- Codi nodweddion adeiladau neu nodweddion y dirwedd neu darfu arnynt.
- Ailfodelu’r dirwedd mewn ffordd a fydd yn newid y topograffi.
- Dympio deunydd.

Rhaid cael caniatâd i gynnal rhai Opsiynau Rheoli a allai achosi difrod i nodweddion Rhestredig neu Heb eu Rhestru a fydd wedi’u nodi ar Fapiau’r Contract gan gynnwys Parciau a Gerddi Cofrestredig.

Rhaid cydymffurfio â’r dyletswyddau cyfreithiol sy’n ymwneud â Hawliau Tramwy Cyhoeddus a mynediad i’r cyhoedd.

Rhaid ichi ddangos eich bod yn cydymffurfio â’r gofynion cyfreithiol ynghylch Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Mynediad i’r Cyhoedd ar Dir y Contract, gan gynnwys peidio â’u rhwystro, a’u hadfer ar ôl eu haredig.

Rhaid caniatáu mynediad ar droed at unrhyw dir sy’n gefn gwlad agored yn ôl y mapiau a baratowyd o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Dylech gysylltu â’ch Awdurdod Lleol os oes unrhyw broblemau â’r Hawliau Tramwy Cyhoeddus hyn ar dir y Contract.

Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan yr Awdurdod Lleol neu Awdurdod y Parc Cenedlaethol i gynnal pob Opsiwn sy'n rhwystro Hawl Tramwy Cyhoeddus. Rhaid ei ddangos pan ofynnir amdano.

Rhaid cadw'r tir yn y Contract yn lân o sbwriel fel hen gerbydau, hen ffensys, deunydd plastig a hen offer domestig.

Rhaid clirio sbwriel o'r safle cyn dechrau'r cytundeb

Rheolau sy'n berthnasol i'r holl dir cynefin

Ystyr cynefin yw:

Unrhyw lystyfiant â llai na 25% ohono'n rhywogaethau amaethyddol sydd wedi'u hau, yn unol â Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007.

Cewch fanylion pellach y diffiniad o gynefin yn Atodiad 1.

Peidiwch â niweidio'r cynefin.

Y diffiniad o niweidio yw peri i'r math o lystyfiant sy'n nodweddiadol o'r cynefin hwnnw gael ei golli. Gallech eu colli trwy orbori neu danbori, neu stablad (gorsathru) y tir trwy borthi da byw arno a rhigoli'r tir â cherbydau.

Peidiwch â gwella'ch tir cynefin.

Ni chaniateir gwella'ch tir cynefin at bwrpas amaethyddol yn ystod oes y Contract, waeth a ydych wedi cael cydsyniad sgrinio o dan y Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol ai peidio. Mae rheoli rhedyn yn eithriad fel y nodir isod.

Peidiwch â rheoli rhedyn trwy eu chwistrellu â chemegau ac ail-hau oni bai'ch bod wedi cael caniatâd o dan y Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol.

Hefyd, mae angen cael caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i chwistrellu tir ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) neu o fewn 100m iddo ac i chwistrellu tir wrth gyrsiau dŵr.

Peidiwch ag aredig, trin nac ail-hau'r tir.

Rhaid peidio â rowlio tir cynefin na'i lyfnu rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf.

Rhaid cofnodi gwaith rowlio a llyfnu ar dir cynefin yn y Dyddiadur Gwaith.

Peidiwch â gosod draeniau newydd na newid y draeniau sydd yno'n barod.

Peidiwch â defnyddio aradr wâdd chwaith.

Peidiwch â charthu ffosydd rhwng 1 Mawrth a 31 Awst ar dir cynefin.

Gellir gwneud gwaith cynnal a chadw arferol ar ddraeniau sy'n bodoli eisoes fel a ganlyn:

■ Gellir clirio llystyfiant a gwaddodion, gan adael llystyfiant ar hyd un ochr i'r ffos.

■ Peidiwch â dyfnhau na lledu ffosydd na gosod pibellau newydd.

■ Cewch gynnal draeniau caeau at y safon wreiddiol cyn belled na fydd hyn yn amharu ar y cynefin.

■ Rhaid cofnodi gwaith carthu ffosydd ar dir cynefin yn y Dyddiadur Gwaith.

Peidiwch â thorri mawn ar dir cynefin.

Peidiwch â gwasgaru slyri, gwrtaith anorganig, gwrtaith organig, tail buarth, slag basig, gwyon calchog, slwtsh carthion, slwtsh papur gwastraff na gwastraff arall o'r fferm ac oddi ar y fferm ar dir cynefin.

Cewch wasgaru tail buarth dim ond lle bydd un o Opsiynau Rheoli cynefin penodol Glastir yn gadael ichi wneud hynny.

Peidiwch â storio tail, silwair na gwastraff arall y fferm ar dir cynefin nac ar nodweddion y dirwedd neu archeolegol nac o fewn 10 metr i gwrs dŵr.

Peidiwch â defnyddio chwynladdwyr ac eithrio i:

- i. sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy neu rywogaethau goresgynnol estron megis marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol, llysiau'r gingroen, clymog Japan, rhododendron, Jac y neidiwr, yr efwr enfawr; neu,

- ii. rheoli llystyfiant goresgynnol ar nodweddion hanesyddol ac adeiladau traddodiadol ac adeiladau fferm.

Efallai y bydd eithriadau i'r amodau uchod os oes eu hangen i sicrhau manteision amgylcheddol penodol sydd eu hangen fel rhan o'r cynllun Glastir.

Adran B – Opsiynau Rheoli

Opsiwn 5 – Amodau manylach ar gyfer rheoli perth/gwrych (bob ochr)

- Nid yw perthi terfyn a pherthi wrth ymyl ffyrdd yn gymwys am yr Opsiwn hwn.
- Dim ond perthi sy'n cael eu rheoli a'u cynnal yn rheolaidd trwy docio neu ddulliau traddodiadol (bondocio a phlygu) sy'n gymwys am yr opsiwn hwn.
- Cadwch uchder a lled y berth fel ag sy'n nodweddiadol yn y dirwedd leol, ond ddim llai na 2 fetr o uchder ac 1.5 metr o led (oni bai ei bod wedi cael ei phlygu fel rhan o gylch rheoli rheolaidd). Os ydy'r berth ar glawdd, mesurwch uchder y berth o ben y clawdd.
- Bydd gofyn i berth newydd ei hadfer dyfu i'r uchder a'r lled gofynnol erbyn blwyddyn 3 y cynllun.
- Gadewch i goed ifanc dyfu'n goed aeddfed yn y berth, bob 20–70 metr.
- Os ydych am blygu'r berth neu ei bondocio, rhaid gwneud hynny rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir 1.5 metr bob ochr o ganol y berth.
- Rhaid nodi manylion y berth rydych yn ei thorri neu ei phlygu o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith.

Peidiwch â:

- Thorri perthi yn ystod tymor nythu'r adar (rhwng 1 Mawrth a 31 Awst).
- Sianelu dŵr sy'n llifo oddi ar wyneb y tir ar hyd ymyl y berth na gadael i dda byw sathru'r pridd.
- Defnyddio llinyn plastig i glymu'r coesynnau yn eu lle.

- Torri mwy na thraean o hyd y berth sydd yn yr Opsiwn hwn bob blwyddyn a pheidiwch â thorri'r un darn o'r berth fwy nag unwaith bob tair blynedd.
- Trin y tir sydd o fewn 2 fetr o ganol y berth, na rhoi gwrtaith, tail na chwynladdwr arno.

Opsiwn 14 – Ymrwymo i chwistrellu 100% o'r slyri

- Rhaid eich bod yn cynhyrchu ac yn darparu lle i storio o leiaf 100,000 o litrau o slyri.
- Rhaid cadw'r storfeydd slyri mewn cyflwr da.
- Rhaid gwasgaru'r holl slyri a gynhyrchir ac a ddefnyddir ar y daliad trwy ddefnyddio chwistrellydd, system 'trailing shoe' neu far diferu dros gyfnod y contract.
- Rhaid cofnodi'r dull gwasgaru a swm y slyri yn y dyddiadur gwaith.

Peidiwch â:

- Chwistrellu'n uniongyrchol i'r pridd ar dir lle ceir Heneb Restredig – defnyddiwch far diferu neu offer 'trailing shoe'.

Opsiwn 14b – Ymrwymo i chwistrellu 75% o'r slyri

- Rhaid bod gennych ddigon o le i storio o leiaf 100,000 o litrau o slyri.
- Rhaid cadw storfeydd slyri mewn cyflwr da.
- Rhaid gwasgaru o leiaf 75% o'r slyri a gynhrychir ac a ddefnyddir ar y daliad, gan ddefnyddio chwistrellydd, system 'trailing shoe' neu far diferu dros gyfnod y contract.
- Gellwch wasgaru hyd at 25% o'r slyri trwy ddulliau confensiynol ar dir wedi'i wella o fewn tir y contract.
- Rhaid cofnodi lleoliad, y dull gwasgaru a swm y slyri yn y Dyddiadur Gwaith.

Peidiwch â:

- Chwistrellu'n uniongyrchol i'r pridd ar dir lle ceir Heneb Restredig – defnyddiwch far diferu neu offer 'trailing shoe'.

Opsiwn 15 – Tir pori parhaol heb fewnbynnau

- Rhaid cadw'r tir fel glaswelltir.
- Rhaid rheoli'r tir drwy bori anifeiliaid arno i gynnal llain las o uchder amrywiol yn ystod y tymor tyfu.
- Rhaid i o leiaf 20% o'r borfa fod yn fyrrach na 7 cm o uchder ac o leiaf 20% ohoni'n dalach na 7 cm o uchder.
- Rheolwch y borfa trwy ei phori i godi tyfiant y llynedd.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn hwn.

Peidiwch â:

- Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.
- Torri'r llystyfiant ar unrhyw adeg ac eithrio i reoli chwyn niweidiol neu redyn. Cewch docio brwyn ar ôl 15 Gorffennaf. Rhaid cofnodi'r gwaith torri ar dir o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith.
- Rowlio na llyfnu'r tir rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf. Rhaid cofnodi'r gwaith rowlio a llyfnu ar dir o dan yr opsiwn hwn yn y dyddiadur gwaith.
- Torri cnwd o wair neu silwair.

Opsiwn 15c – Tir pori parhaol heb unrhyw fewnbynnau a phori cymysg

- Gallwch gynnal yr opsiwn ar dir pori sydd naill ai'n dir wedi'i wella neu'n dir cynefin.
- Rhaid cadw'r tir fel glaswelltir.
- Rhaid rheoli'r tir drwy bori anifeiliaid arno i gynnal llain las o uchder amrywiol yn ystod y tymor tyfu.
- Rhaid i o leiaf 30% o'r unedau da byw fod yn wartheg pori ym mhob blwyddyn galendr.
- Rhaid i o leiaf 15% o'r unedau da byw fod yn ddefaid pori ym mhob blwyddyn galendr.
- Rhaid i o leiaf 20% o'r borfa fod yn fyrrach na 7 cm o uchder ac o leiaf 20% ohoni'n dalach na 7 cm o uchder.
- Rheolwch y borfa trwy ei phori i godi tyfiant y flwyddyn.
- Rhaid cadw dyddiadur stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn hwn.

Peidiwch â:

- Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.
- Torri'r llystyfiant ar unrhyw adeg ac eithrio i reoli chwyn niweidiol neu redyn. Cewch docio brwyn ar ôl 15 Gorffennaf. Rhaid cofnodi'r gwaith torri ar dir o dan yr opsiwn hwn yn y dyddiadur gwaith.
- Rowlio na llyfnu'r tir rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf. Rhaid cofnodi'r gwaith rowlio a llyfnu ar dir o dan yr opsiwn hwn yn y dyddiadur gwaith.
- Torri cnwd o wair na silwair.

Opsiwn 19 – Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel

- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn hwn.
- Cynhaliwch y glaswellt a'r brwyn drwy eu pori i sicrhau llain las sydd ag 80% o'i laswelltau (heb gynnwys brwyn) yn 5–30 cm o uchder yn ystod y tymor tyfu.

Peidiwch â:

- Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.
- Torri mwy nag un rhan o dair o'r tir sydd o dan frwyn bob blwyddyn mewn cylchdro.
- Rowlio, llyfnu na thorri rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf.

Opsiwn 19b – Rheoli glaswelltir gwlyb ar dir isel â phori cymysg

- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn hwn.
- Cynhaliwch y glaswellt a'r brwyn drwy eu pori i sicrhau llain las sydd ag 80% o'i laswelltau (heb gynnwys brwyn) yn 5–30 cm o uchder yn ystod y tymor tyfu.
- Rhaid i o leiaf 30% o'r unedau da byw fod yn wartheg pori ym mhob blwyddyn galendr.
- Rhaid i o leiaf 15% o'r unedau da byw fod yn ddefaid pori ym mhob blwyddyn galendr
- Rhaid cadw Dyddiadur Stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.

Peidiwch â:

- Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.
- Torri mwy nag un rhan o dair o'r tir sydd o dan frwyn bob blwyddyn mewn cylchdro.
- Rowlio, llyfnu na thorri rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf.

Opsiwn 20 – Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad

- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn hwn.
- Rhwystwrch brysgwydd ac eithin rhag tagu'r tir drwy bori gwartheg, defaid, geifr neu ferlod arno.
- Ar weundir llawr gwlad dylai o leiaf hanner (50%) o'r gweundir fod yn gorlwyni megis grug a llus.
- Ar weundir arfordirol dylai o leiaf chwarter (25%) o'r gweundir fod yn gorlwyni megis grug, llus ac eithin mân.
- Rhaid i rug aeddfed prenaidd ac ail dyfiant ifanc fod yn bresennol.
- Rhaid llosgi llystyfiant ar weundir llawr gwlad yn unol â'r Rheoliad Llosgi Grug a Glaswellt (2008) a'r cod Llosgi Grug a Glaswellt.
- Ni ddylai mwy na chwarter o'r gweundir ddangos arwyddion o losgi yng nghyfnod y contract (5 mlynedd).
- Rhaid cynnal yr Opsiwn hwn ar barseli cyfan.
- Er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir o fathau o llystyfiant fel y nodwyd uchod ni ddylai'r lefelau pori fod yn uwch na'r canlynol unrhyw bryd:
 - 1 Ebrill – 30 Mehefin 0.4 UDB/hectar
 - 1 Gorffennaf – 30 Medi 0.2 UDB/hectar
 - 1 Hydref – 31 Mawrth 0.1 UDB/hectar
- Rhaid cofnodi'r gwaith llosgi ar y tir sydd o dan yr opsiwn hwn yn y dyddiadur gwaith.
- Rhaid cadw Dyddiadur Stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.

Peidiwch â:

■ Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.

Opsiwn 20b – Rheoli gweundir arfordirol a gweundir llawr gwlad â phori cymysg

- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn hwn.
- Rhwystwrch brysgwydd ac eithin rhag tagu'r tir drwy bori gwartheg, defaid, geifr neu ferlod arno.
- Ar weundir llawr gwlad dylai o leiaf hanner (50%) o'r gweundir fod yn gorlwyni megis grug a llus.
- Ar weundir arfordirol dylai o leiaf chwarter (25%) o'r gweundir fod yn gorlwyni megis grug, llus ac eithin mân.
- Rhaid i rug aeddfed prenaidd ac ail dyfiant ifanc fod yn bresennol.
- Rhaid llosgi llystyfiant ar weundir llawr gwlad yn unol â'r Rheoliad Llosgi Grug a Glaswellt (2008) a'r cod Llosgi Grug a Glaswellt.
- Ni ddylai mwy na chwarter o'r gweundir ddangos arwyddion o losgi yng nghyfnod y contract (5 mlynedd).
- Rhaid cynnal yr Opsiwn hwn ar barseli cyfan.
- Rhaid i o leiaf 30% o'r unedau da byw fod yn wartheg pori ym mhob blwyddyn galendr.
- Rhaid i o leiaf 15% o'r unedau da byw fod yn ddefaid pori ym mhob blwyddyn galendr.
- Er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir o fathau o lystyfiant fel y nodwyd uchod ni ddylai'r lefelau pori fod yn uwch na'r canlynol unrhyw bryd:
 - 1 Ebrill – 30 Mehefin 0.4 UDB/hectar
 - 1 Gorffennaf – 30 Medi 0.2 UDB/hectar
 - 1 Hydref – 31 Mawrth 0.1 UDB/hectar

■ Rhaid cofnodi'r gwaith llosgi ar y tir sydd o dan yr opsiwn hwn yn y dyddiadur gwaith.

■ Rhaid cadw dyddiadur stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.

Peidiwch â:

■ Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.

Opsiwn 21 – Rheoli morfeydd heli sy'n cael eu pori

- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn hwn.
- Cynhaliwch y borfa drwy ganiatáu i wartheg, defaid, geifr neu ferlod bori'n ysgafn arni neu drwy roi'r gorau i bori arni pan fydd angen.
- Morfa bori: dylai o leiaf 20% o'r borfa fod yn fyrrach na 10 cm o uchder ac o leiaf 20% ohoni fod yn dalach na 10 cm o uchder.
- Er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir o fathau o lystyfiant fel y nodwyd uchod ni ddylai'r lefelau stocio fod yn uwch na 0.4 UDB/hectar rhwng 1 Mawrth a 15 Gorffennaf.
- Rhaid cadw Dyddiadur Stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.

Peidiwch â:

- Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.
- Mynd â cherbydau arno ac eithrio mewn argyfwng. Rhaid cofnodi'r cerbydau argyfwng sy'n cael eu defnyddio ar dir yn yr opsiwn hwn yn y dyddiadur gwaith.
- Ailagor unrhyw ddraeniau sy'n bod eisoes.

Opsiwn 21b – Rheoli morfeydd heli sy'n cael eu pori â phori cymysg

- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn hwn.
- Cynhaliwch y borfa drwy ganiatáu i wartheg, defaid, geifr neu ferlod bori'n ysgafn arni neu drwy roi'r gorau i bori arni pan fydd angen.
- Morfa bori: dylai o leiaf 20% o'r borfa fod yn fyrrach na 10 cm o uchder ac o leiaf 20% ohoni fod yn dalach na 10 cm o uchder.
- Rhaid i o leiaf 30% o'r unedau da byw fod yn wartheg pori ym mhob blwyddyn galendr.
- Rhaid i o leiaf 15% o'r unedau da byw fod yn ddefaid pori ym mhob blwyddyn galendr.
- Er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir o fathau o lystyfiant fel y nodwyd uchod ni ddylai'r lefelau stocio fod yn uwch na 0.4 UDB/hectar rhwng 1 Mawrth a 15 Gorffennaf.
- Rhaid cadw dyddiadur stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.

Peidiwch â:

- Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.
- Mynd â cherbydau arno ac eithrio mewn argyfwng. Rhaid cofnodi'r cerbydau argyfwng sy'n cael eu defnyddio ar dir yn yr opsiwn hwn yn y dyddiadur gwaith.
- Ailagor unrhyw ddraeniau sy'n bod eisoes.

Opsiwn 22 – Cynnal gweirgloddiau

- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn hwn, ond fe gewch wasgaru tail buarth arno bob yn ail flwyddyn.
- Dylech fynd ag anifeiliaid pori o'r weirglodd cyn 15 Mai a'u cadw oddi arni am o leiaf 10 wythnos.
- Mae'n dderbyniol gwneud gwywair ond nid silwair. Rhaid troi'r gwywair o leiaf ddwywaith.
- Cynhaliwch yr adlodd gydag 80% o'r glaswelltau yn 5–15 cm o uchder.
- Rhaid cadw Dyddiadur Stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.

Peidiwch â:

- ei lladd cyn 15 Gorffennaf mewn Ardal Lai Ffatriol (ALFf), ac 8 Gorffennaf y tu allan i'r ALFf. Gadewch o leiaf 5% heb ei ladd bob blwyddyn. Rhaid nodi dyddiad lladd y weirglodd yn y dyddiadur gwaith.
- Gadael anifeiliaid pori arni am bedair wythnos ar ôl ei lladd.

Opsiwn 25 – Rheoli twyni tywod

- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn hwn.
- Rhaid rheoli'r tir drwy adael i wartheg, defaid, geifr neu ferlod bori'n ysgafn arno.
- Ar dwyni tywod dylech gynnal llain las o uchder amrywiol. Rhaid i o leiaf 20% o'r borfa fod yn fyrrach na 5 cm o uchder a rhaid i o leiaf 40% fod yn fyrrach na 10 cm. Mewn pantiau gwlyb, dylech gynnal llain las y mae llai na 70% ohoni'n laswellt.
- Ni ddylech bori fwy na 0.6 UDB/hectar rhwng 1 Mawrth a 15 Gorffennaf.
- Rhaid cadw Dyddiadur Stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.

Peidiwch â:

- Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.

Opsiwn 25b – Rheoli twyni tywod â phori cymysg

- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn hwn.
- Rhaid rheoli'r tir drwy adael i wartheg, defaid, geifr neu ferlod bori'n ysgafn arno.
- Ar dwyni tywod dylech gynnal llain las o uchder amrywiol. Rhaid i o leiaf 20% o'r borfa fod yn fyrrach na 5 cm o uchder a rhaid i o leiaf 40% fod yn fyrrach na 10 cm. Mewn pantiau gwlyb, dylech gynnal llain las y mae llai na 70% ohoni'n laswellt.
- Ni ddylech bori fwy na 0.6 UDB/hectar rhwng 1 Mawrth a 15 Gorffennaf.
- Rhaid i o leiaf 30% o'r unedau da byw fod yn wartheg pori ym mhob blwyddyn galendr.
- Rhaid i o leiaf 15% o'r unedau da byw fod yn ddefaid pori ym mhob blwyddyn galendr.
- Rhaid cadw Dyddiadur Stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.

Peidiwch â:

- Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.

Opsiwn 27 – Ymylon o wyndwn

- I'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig.
- Caiff fod yn rhan o gylchdro.
- Rhaid cyflwyno'r Ffurflen Hysbysu Opsiynau Rheoli cyn symud yr opsiwn hwn.
- Rhaid cynnal yr Opsiwn hwn wrth ydau, had rêp olew, had llin, indrawn neu wreiddiau.
- Rhaid sefydlu ymyl o wyndwn bob blwyddyn rhwng 2–8 metr o led cyn 15 Mai (cnydau yd, had llin a rêp), cyn 31 Mai (indrawn) neu cyn 1 Gorffennaf (gwreiddgnydau).
- Rhaid creu gwely had bob blwyddyn a gadael i'r ymyl aildyfu'n naturiol.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar yr holl dir o fewn yr ymyl o wyndwn.
- Rhaid cofnodi gwaith sefydlu a thorri'r ymyl o wyndwn yn y Dyddiadur Gwaith.

Peidiwch â:

- Defnyddio'r ymylon fel trac.
- Ei dorri cyn 1 Awst neu tan 14 wythnos ar ôl ei hau (pa un bynnag sydd hwyraf).

Opsiwn 28 – Cadw sofr dros y gaeaf

- I'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig.
- Rhaid iddo ddilyn cnwd ydau.
- Caiff fod yn rhan o gylchdro.
- Rhaid cyflwyno'r Ffurflen Hysbysu Opsiynau Rheoli cyn symud yr opsiwn hwn.
- Casglwch y gwellt o fewn 2 wythnos ar ôl y cynhaeaf a chaniatáu aildyfiant naturiol o laswelltau a phlanhigion llydanddail.
- Peidiwch â gadael mwy na 0.4UDB/hectar o anifeiliaid i bori arno.
- Bydd angen cadw Dyddiadur Stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.
- Nid yw sofr indrawn na sofr y cnwd a heuwyd tano yn dderbyniol.
- Rhaid cofnodi'r gwaith cynaeafu, torri, aredig, trin a drilio ydau o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith.

Peidiwch â:

- Defnyddio chwynladdwyr ac eithrio i sbot-chwynnu chwyn hysbysadwy. Cewch ddefnyddio chwynladdwr o 1 Mawrth.
- Torri tyfiant ddaeth ar ôl y cynhaeaf cyn 15 Chwefror.
- Gwasgaru slyri rhwng y cynhaeaf a 1 Mawrth.
- Defnyddio'r ardal i storio tail.
- Rhoi porthiant atodol arno.
- Ei aredig, ei drin na'i ddrilio cyn 1 Mawrth.
- Gadael mwy na 0.4UDB/hectar o anifeiliaid i bori arno.

Opsiwn 30 – Ydau gwanwyn neu godlysiau heb eu chwistrellu

- I'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig.
- Caiff fod yn rhan o gylchdro.
- Peidiwch â'i gynnal ar dir organig ardystiedig.
- Rhaid cyflwyno'r Ffurflen Hysbysu Opsiynau Rheoli cyn symud yr opsiwn hwn.
- Rhaid sefydlu'r cnwd cyn 15 Mai.
- Cewch chwistrellu glyphosate i ladd tyfiant cyn hau ond peidiwch â defnyddio chwynladdwr arall ac eithrio i sbot–chwynnu chwyn hysbysadwy neu rywogaethau estron goresgynnol fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol, llysiau'r gingroen, clymog Japan neu Jac y neidiwr.
- Rhaid cofnodi gwaith sefydlu a chynaeafu ydau heb eu chwistrellu a heuwyd yn y gwanwyn yn y Dyddiadur Gwaith.
- Nid yw indrawn yn dderbyniol.

Peidiwch â:

- Chynaeafu'r cnwd cyn 1 Awst neu tan 14 wythnos ar ôl ei hau (p'un bynnag sydd hwyraf).
- Hau o dan y cnwd.
- Defnyddio pryfladdwyr.
- Defnyddio ffwngladdwyr ond ar gyfer trin yr had cyn eu hau.
- Defnyddio gwenwyn lladd malwod ond os ydych yn ei ddrilio gyda'r had.

Opsiwn 31 – Ydau gwanwyn heb eu chwistrellu, gyda sofr dros y gaeaf

- I'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig.
- Caiff fod yn rhan o gylchdro.
- Peidiwch â'i gynnal ar dir organig ardystiedig.
- Rhaid cyflwyno'r Ffurflen Hysbysu Opsiynau Rheoli cyn symud yr opsiwn hwn.
- Rhaid sefydlu'r cnwd cyn 15 Mai.
- Cewch chwistrellu glyphosate i ladd tyfiant cyn hau ond peidiwch â defnyddio chwynladdwr arall ac eithrio i sbot–chwynnu chwyn hysbysadwy neu rywogaethau estron goresgynnol fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol, llysiau'r gingroen, clymog Japan neu Jac y neidiwr.
- Casglwch y gwellt o fewn 2 wythnos ar ôl y cynhaeaf a chaniatáu aildyfiant naturiol o laswelltau a phlanhigion llydanddail.
- Ar ôl ei gynaeafu, peidiwch â'i bori cyn 1 Ionawr ac wedyn â dim mwy na 0.4udb/hectar ar unrhyw adeg.
- Bydd angen cadw dyddiadur stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.
- Rhaid cofnodi'r gwaith sefydlu a chynaeafu, torri, aredig, trin a drilio ydau o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith.
- Nid yw indrawn yn dderbyniol.

Peidiwch â:

- Hau cnwd oddi tano.
- Cynaeafu'r cnwd cyn 1 Awst neu tan 14 wythnos ar ôl ei hau (p'un bynnag sydd hwyraf).

- Torri'r tyfiant a ddaeth ar ôl y cynhaeaf cyn 15 Chwefror.
- Gwasgaru slyri rhwng y cynhaeaf a 1 Mawrth.
- Ei aredig, ei drin na'i ddrilio'n uniongyrchol cyn 1 Mawrth.
- Defnyddio pryfladdwyr.
- Defnyddio ffwngladdwyr ond ar gyfer trin yr had cyn eu hau.
- Defnyddio gwenwyn lladd malwod ond os ydych yn ei ddrilio gyda'r had.

Opsiwn 32b – Plannu gwreiddgnydau heb eu chwistrellu ar dir wedi'i wella heb ddrilio

- I'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig.
- Caiff fod yn rhan o gylchdro.
- Rhaid cyflwyno'r Ffurflen Hysbysu Opsiynau Rheoli cyn symud yr opsiwn hwn.
- Sefydlwch gnwd o faip gwynion, maip melyn meddal, maip melyn caled, erfin neu fetys porthiant cyn 1 Gorffennaf.
- Paratowch y pridd trwy ei drin.
- Cewch ddefnyddio glyphosate i ladd tyfiant cyn hau ond peidiwch â defnyddio chwynladdwr arall ac eithrio i sbot-chwynnu chwyn hysbysadwy neu rywogaethau estron goresgynnol fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol, llysiau'r gingroen, clymog Japan neu Jac y neidiwr.
- Peidiwch â defnyddio ffwngladdwr oni bai'ch bod yn ei roi i drin yr had cyn eu hau.
- Ar dir wrth gwrs dŵr mae angen llain glustogi briodol o laswellt (o leiaf 2 fetr o led). Mae priodol yn golygu digon o lain glustogi i rwystro gwaddodion rhag cael eu golchi oddi ar y cae i'r cwrs dŵr.
- Rhaid cadw stoc allan tan 15 Hydref.
- Rhaid cofnodi gwaith sefydlu ac aredig y gwreiddgnwd heb ei chwistrellu o dan yr opsiwn hwn a'r dyddiad cychwyn pori yn y Dyddiadur Gwaith

Peidiwch â:

- Aredig tan 1 Mawrth
- Drilio'r had
- Defnyddio pryfladdwr na gwenwyn lladd malwod.

■ Hau cnwd oddi tano

Opsiwn 33 – Cnwd gorchudd i anifeiliaid gwyllt ar dir wedi'i wella

- I'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig.
- Caiff fod yn rhan o gylchdro.
- Rhaid cyflwyno'r Ffurflen Hysbysu Opsiynau Rheoli cyn symud yr opsiwn hwn.
- Paratowch wely had o leiaf 4 metr o led a sefydlu'r cnwd erbyn 15 Mai.
- Bydd o leiaf 80% o'r cymysgedd hadau yn ydau, gydag o leiaf un o'r canlynol: mwstard, rêp neu had llin.
- Cewch ddefnyddio glyphosate i ladd tyfiant cyn hau ond peidiwch â defnyddio chwynladdwr arall ac eithrio i sbot-chwynnu chwyn hysbysadwy neu rywogaethau estron goresgynnol fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol, llysiau'r gingroen, clymog Japan neu Jac y neidiwr.
- Rhaid ail-hau unrhyw ran o'r tir lle mae'r cnwd yn methu.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn hwn.
- Rhaid cofnodi gwaith sefydlu a thorri'r cnwd bywyd gwyllt o dan yr opsiwn hwn a'r dyddiad cychwyn pori yn y Dyddiadur Gwaith.
- Nid yw indrawn yn dderbyniol.

Peidiwch â:

- Hau cnwd oddi tano.
- Ei bori na'i dorri cyn 15 Mawrth y flwyddyn ganlynol.
- Defnyddio pryfladdwyr.
- Defnyddio ffwngladdwyr ond ar gyfer trin yr had cyn eu hau.

■ Defnyddio gwenwyn lladd malwod ond os ydych yn ei ddrilio gyda'r had.

Opsiwn 34 – Talar o yd heb ei gynaeafu

- I'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig.
- Caiff fod yn rhan o gylchdro.
- Rhaid cyflwyno'r Ffurflen Hysbysu Opsiynau Rheoli cyn symud yr opsiwn hwn.
- Mae'r Opsiwn hwn ar gael ar gyfer cnwd yd sy'n cydio erbyn 15 Mai.
- Dylech neilltuo talar 3–6 metr o led o gnwd yd ar hyd ymyl y cnwd a'i adael heb ei gynaeafu tan 1 Mawrth.
- Cewch ddefnyddio glyphosate i ladd tyfiant cyn hau ond peidiwch â defnyddio chwynladdwr arall ac eithrio i sbot–chwynnu chwyn hysbysadwy neu rywogaethau estron goresgynnol fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol, llysiau'r gingroen, clymog Japan neu Jac y neidiwr.
- Rhaid cofnodi gwaith sefydlu, cynaeafu a thorri'r dalar ydau o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith.

Peidiwch â:

- Rhoi unrhyw wrtaith, tail organig, calch na slag.
- Cynaeafu na phori'r dalar tan 1 Mawrth y flwyddyn ganlynol.
- Defnyddio pryfladdwyr.
- Defnyddio ffwngladdwyr ond ar gyfer trin yr had cyn eu hau.
- Defnyddio gwenwyn lladd malwod ond os ydych yn ei ddrilio gyda'r had.

Opsiwn 34b – Talar o ŷd heb ei wrteithio nai'i chwistrellu

- I'w gynnal ar dir wedi'i wella yn unig.
- Caiff fod yn rhan o gylchdro.
- Rhaid cyflwyno'r Ffurflen Hysbysu Opsiynau Rheoli cyn symud yr opsiwn hwn.
- Mae'r Opsiwn hwn ar gael ar gyfer cnwd ŷd sy'n cydio erbyn 15 Mai.
- Cewch ddefnyddio glyphosate i ladd tyfiant cyn hau ond peidiwch â defnyddio chwynladdwr arall ac eithrio i sbot-chwynnu chwyn hysbysadwy neu rywogaethau estron goresgynnol fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol, llysiau'r gingroen, clymog Japan neu Jac y neidiwr.
- Dylech neilltuo talar 3–6 metr o led o gnwd ŷd ar hyd ymyl y cnwd a'i adael heb ei wrteithio na'i chwistrellu.
- Rhaid cofnodi gwaith sefydlu, cynaeafu a thorri'r dalar ydau o dan yr opsiwn hwn yn y Dyddiadur Gwaith.

Peidiwch â:

- Rhoi unrhyw wrtaith, tail organig, calch na slag.
- Cynaeafu na phori'r dalar tan 1 Awst neu 14 wythnos ar ôl hau (pa un bynnag yw'r olaf).
- Defnyddio pryfladdwyr.
- Defnyddio ffwngladdwyr ond ar gyfer trin yr had cyn eu hau.
- Defnyddio gwenwyn lladd malwod ond os ydych yn ei ddrilio gyda'r had.

Opsion 37 – Bridiau Prydeinig brodorol prin

- Cyfyngir yr opsiwn hwn i 0.28 UDB/ha ar dir cymwys
- Rhaid cynnal y nifer ofynnol o Unedau Da Byw bob adeg o'r flwyddyn ac eithrio pan fydd angen cymryd mesurau rheoli milfeddygol anrhagweladwy.
- Er mwyn bod yn gymwys, rhaid bod y da byw wedi'u cofrestru fel anifeiliaid pedigri. Efallai y bydd gofyn cysylltu rhif adnabod yr anifail â Chymdeithas ei Frid.
- Caniateir gwartheg, defaid a cheffylau cymwys fel y'u diffinnir ar gofrestr gymeradwy Prydain o fridiau brodorol sydd mewn perygl (fel y'u nodir isod)
- Bydd y bridiau cymwys a gynhwyswyd ar ddechrau'r contract yn gymwys am oes y contract, ond os byddwch yn dewis newid bridiau yn ystod y contract, bydd yn rhaid ichi gynnal y nifer ofynnol o unedau da byw sydd i'w weld ar y fersiwn ddiweddaraf Llawlyfr Technegol Glastir
- Bydd angen un o'r tair dogfen ganlynol i brofi'r opsiwn hwn (i) tystysgrif pedigri unigol; (ii) llyfr buches/diadell/gre ac ati y gymdeithas dan sylw neu (iii) lythyr oddi wrth gymdeithas y brid yn cadarnhau faint o anifeiliaid o'r rhestr bridiau prin sydd ar eich daliad.
- Rhaid cadw Dyddiadur Stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.

(Caiff y rhestr o fridiau brodorol prin ei hadolygu o dro i dro ac fe all newid)

Gwartheg	Defaid (parhad)	Ceffylau
Aberdeen Angus (Grddl ¹) Beef Shorthorn Belted Galloway (gan gynnwys Galloway gwyn) British White Chillingham Dairy Shorthorn (Grddl ¹) Devon (Red Ruby) Dexter ²	Border Leicester Boreray Cambridge Castlemilk Moorit Clun Forest Cotswold Dalesbred Defaid Balwen Defaid Ceri	Cleveland Bay Clydesdale Dales Dartmoor Eriskay Exmoor Fell Hackney (Ceffyl a Merlyn) Highland

Gwartheg	Defaid (parhad)	Ceffylau
Friesian Prydeinig (Grddl ¹) Galloway ³ Gloucester Guernsey Guernsey (Ynys ⁴) Gwartheg Duon Cymreig Hereford (Grddl ¹) Highland Irish Moiled / Maol ² Jersey (Ynys ⁴) Lincoln Red Lincoln Red (Grddl ¹) Longhorn Luing Northern Dairy Shorthorn ⁵ Redpoll Shetland Sussex Vaynol White Park Whitebred Shorthorn	Defaid Epynt Caled Defaid Llanwenog Defaid Maesyfed Defaid Mynydd Cymreig Du Defaid Mynydd Penfrith Defaid Penwyn Llanymdyfri Defaid Torddu a Thorwen Derbyshire Gritstone Devon & Cornwall Longwool Devon Closewool Dorset Down Dorset Horn Exmoor Horn Greyface Dartmoor Hampshire Down Hebridean Herdwick Jacob Leicester Longwool Lincoln Longwool Lonk Manx Loghtan Norfolk Horn North Ronaldsay / Orkney Oxford Down Portland Romney Ryeland Shetland (Tir Mawr) Shetland (Ynys ⁴) Shropshire Soay Southdown Teeswater Wensleydale Whiteface Dartmoor Whitefaced Woodland Wiltshire Horn	Merlod Mynydd Cymreig (Adran A Lied–wyllt ⁶) New Forest Percheron Prydeinig Shire Suffolk

⁰¹ Mae “Grddl” yn golygu anifeiliaid sydd wedi’u cofrestru fel rhai pedigri ac sy’n rhan o ‘Boblogaeth Wreiddiol’ y brîd hwnnw, fel arfer ar is–gofrestr ‘gaeedig’ ar wahân o lyfr buchesi cymdeithas y brîd.

² Bridiau brodorol sydd mewn perygl yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon.

³ Mae “Galloway” yn cynnwys gwartheg Galloway du, gwyn, melyn a chefnwyn.

⁴ Mae “Ynys” yn golygu anifeiliaid sydd wedi’u cofrestru fel rhai pedigri ac sy’n rhan o boblogaeth yr ‘Ynys’ y brîd hwnnw, fel arfer ar is–gofrestr ‘gaeedig’ ar wahân o lyfr cymdeithas y brîd.

⁵ Mae gwartheg North Dairy Shorthorn yn cael eu hystyried yn anifeiliaid ar wahân o fewn y brîd Dairy Shorthorn.

⁶ Mae “Adran A lled–wyllt” yn cyfeirio at is–boblogaeth benodol o anifeiliaid pedigri sydd wedi’u cofrestru ar wahân yn llyfr gre Cymdeithas y Merlod a’r Cobiau Cymreig (yn unol â’r rheolau). Er mwyn cadw eu statws fel anifeiliaid lled–wyllt, rhaid iddynt aros yn eu hamgylchedd dynodedig a bydd ganddynt basbortau unigol gyda’u statws lled–wyllt wedi’i nodi’n swyddogol arnynt. Dylech gadarnhau cymhwysedd pob anifail unigol gyda Chymdeithas y Merlod a’r Cobiau Cymreig sy’n cadw rhestr o’r holl ferlod a all fod yn gymwys am statws “Adran A lled–wyllt”.

Opsiwn 41A – Rheoli'r pori ar dir agored

- Ni chewch gynnal Opsiwn arall ar dir sy'n gymwys ar gyfer yr opsiwn hwn.
- Opsiwn parcel cyfan sy'n seiliedig ar y gyfran sy'n gynefin (glaswelltir ucheldir / gorgors a gweundir).
- Rhaid cytuno ar amserlen stocio wrth wneud cais.
- Bydd yr amserlen yn nodi'r nifer uchaf o Unedau Da Byw a fydd ar dir y contract ar unrhyw ddiwrnod o'r flwyddyn yn ogystal â'r lefelau pori uchaf a ganiateir.
- Rhaid cadw at y lefelau pori isaf. Rhaid neilltuo hyd at 10 diwrnod di-stoc. Penderfynir arnynt ymlaen llaw.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr opsiwn hwn.
- Bydd angen cadw Dyddiadur Stocio a'i ddangos pan ofynnir amdano.

Peidiwch â:

- Mynd dros y lefelau stocio.
- Rhoi porthiant atodol i'r da byw arno.

Opsiwn 41B – Rheoli'r pori ar dir agored â phori cymysg

- Ni chewch gynnal Opsiwn arall ar dir sy'n gymwys ar gyfer yr opsiwn hwn.
- Opsiwn parcel cyfan sy'n seiliedig ar y gyfran sy'n gynefin (glaswelltir ucheldir / gorgors a gweundir).
- Cyfrifir lefelau stocio fesul parcel: cyfraddau i'w cyhoeddi.
- Rhaid i o leiaf 30% o'r unedau da byw fod yn wartheg pori ym mhob blwyddyn galendr.
- Rhaid i o leiaf 15% o'r unedau da byw fod yn ddefaid pori ym mhob blwyddyn galendr.
- Bydd yn rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr opsiwn hwn.
- Bydd angen cadw dyddiadur stocio a'i ddangos pan ofynnir amdano.

Peidiwch â:

- Rhoi porthiant atodol i'r da byw arno.

Opsiwn 100 – Coetir di–stoc

- Rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn hwn.
- Rhaid cadw'r holl dda byw allan.

Peidiwch â:

- Cwmpo coed.
- Clirio unrhyw ffosydd sydd eisoes yn bodoli.
- Defnyddio plaladdwr, ffwngladdwr na gwenwyn malwod.
- Defnyddio calch nag unrhyw sylweddau eraill i newid asidedd y pridd.
- Torri na thocio llystyfiant.
- Llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Rowlio na llyfnu ag oged gadwyn.
- Plannu coed.
- Gwneud unrhyw weithgaredd sy'n symud pridd.
- Caniatáu gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd.
- Adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled neu unrhyw strwythur newydd.
- Storio deunyddiau neu beiriannau.

Opsiwn 101 – Sefydlu coed a prysgwydd trwy blannu

- Rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn hwn.
- Rhaid cadw'r holl dda byw allan.
- Gwneud unrhyw weithgaredd sy'n symud pridd.
- Caniatáu gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd.
- Adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled neu unrhyw strwythur newydd.
- Storio deunyddiau neu beiriannau.

Opsiwn 151 – Creu graean arfordirol a thwyni tywod â llystyfiant

- Rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr opsiwn hwn.
- Rhaid rheoli drwy bori i gynnal porfa amrywiol ei uchder, gydag o leiaf 20% o'r borfa'n fyrrach na 5 cm ac o leiaf 40% yn dalach na 10 cm.
- Mewn pantiau gwlyb, dylech gynnal llain las y mae llai na 70% ohoni'n laswellt.
- Codwch sbwriel â llaw.
- Cofnodwch y gwaith o godi sbwriel ac unrhyw enghreifftiau o dorri neu docio i reoli chwyn niweidiol yn y Dyddiadur Gwaith, gan ofalu fod y Dyddiadur ar gael i ni ei weld pan ofynnwn amdano.

Peidiwch â:

- Defnyddio na chaniatáu mynediad i gerbydau, ac eithrio lle bo'n hanfodol ar gyfer rheoli'r tir.
- Cael gwared â'r gweddillion pren.
- Defnyddio peiriannau i gasglu sbwriel.
- Llosgi sbwriel a gasglwyd, ond rhaid mynd â'r sbwriel o'r daliad.
- Rheoli neu geisio cael gwared â chwningod.
- Clirio unrhyw ffosydd sydd eisoes yn bodoli.
- Defnyddio plaladdwr, ffwngladdwr na gwenwyn malwod.
- Defnyddio calch nag unrhyw sylweddau eraill i newid asidedd y pridd.
- Torri na thocio llystyfiant ac eithrio i reoli chwyn niweidiol.
- Llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.

- Rowlio na llyfnu ag oged gadwyn.
- Rhoi porthiant atodol.
- Plannu coed.
- Gwneud unrhyw weithgaredd sy'n symud pridd.
- Caniatáu gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd.
- Adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled neu unrhyw strwythur newydd.
- Storio deunyddiau neu beiriannau.

Opsiwn 153 – Gwyndwn o feillion coch

- Rhaid rheoli'r arwynebedd lleiaf y gofynnir amdano yn y Contract bob blwyddyn.
- Rhaid i o leiaf 80% o'r borfa fod yn feillion coch. Caniateir cymysgedd o gyltifarau meillion coch, a chanran o hadau pys–y–ceirw (rhaid cadw labeli'r hadau priodol).
- Cadwch gofnod o ddyddiad sefydlu, defnyddio glyffosad, dyddiadau torri a dyddiad cau'r ardal a'i hagor i dda byw (gweler y manylion isod) yn y Dyddiadur Gwaith, gan ofalu fod y Dyddiadur ar gael i ni ei weld pan ofynnwn amdano.

Peidiwch â:

- Torri mwy na 50% o'r gwndwn ar unrhyw adeg unigol, a pheidiwch torri'r 50% arall nes i'r hanner cyntaf ddechrau blodeuo eto.
- Defnyddio cymysgedd o hadau â rhygwellt, meillion gwyn neu unrhyw rywogaeth arall ac eithrio meillion coch neu bys–y–ceirw.
- Defnyddio chwynladdwyr na phlaladdwyr gan gynnwys pryfladdwr, ffwngladdwr a gwenwyn malwod, ac eithrio glyffosad ar ôl 1 Hydref i chwistrellu llystyfiant cyn ailsefydlu gwyndwn o feillion coch. Wrth ddefnyddio glyffosad, rhaid cadw llain glustogi o leiaf 10 metr o led rhwng safle sy'n cael ei drin a'r cwrs dŵr agosaf.
- Pori rhwng 1 Mawrth ac 30 Medi. Os yw'r un cae i'w ddefnyddio am ddwy flynedd yn olynol, dylid pori rhwng 1 Hydref a diwedd Chwefror yn unig, ac ni ddylai'r borfa gael ei bori'n is na 10 centimetr yn ystod y cyfnod hwn.
- Aredig, plannu, ail–hau na hau had rhwng 15 Mai a 1 Hydref.

Opsiwn 155 – Rheoli maethynnau'n well trwy gynllunio a chodi samplau pridd

- Rhaid diweddarau'ch Cynllun Rheoli Maethynnau erbyn 15 Ionawr bob blwyddyn yn unol â gofynion RB209*. Rhaid i'r cynllun ddangos sut y byddwch yn rheoli maethynnau (defnyddio Slyri/Tail a gwartaith) yn ystod y flwyddyn nesaf. Gellir diweddarau'r cynllun ar bapur neu drwy ddefnyddio meddalwedd PLANET. Rhaid i'r Cynllun Rheoli Maethynnau cyfredol fod ar gael i'w weld pan ofynnwn amdano.
- Rhaid cadw cofnodion manwl am bob gwasgariad o slyri/tail neu wrtaith gan ddefnyddio'r Templed Cofnodi Maethynnau Cae sydd yn eich contract neu'n electronig gan ddefnyddio meddalwedd PLANET**. Rhaid i'r cofnodion cae fod ar gael inni eu gweld pan ofynnwn amdanynt.

Peidiwch â:

- Defnyddio slyri/tail, gwartaith na chalch ar dir lle mae Opsiynau Rheoli Glastir neu God y Fferm Gyfan yn gwahardd defnydd o'r fath, hyd yn oed os yw'r defnydd yn cael ei argymhell yn y Cynllun Rheoli Maethynnau.
- Defnyddio mwy o slyri/tail neu wrtaith na'r swm sy'n cael ei argymhell yn eich Cynllun Rheoli Maethynnau.

*Gellir llwytho RB209 i lawr o wefan Defra

<http://www.defra.gov.uk/publications/2011/03/25/fertiliser-manual-rb209/>

**Gellir llwytho meddalwedd PLANET i lawr yn rhad ac am ddim o

<http://www.planet4farmers.co.uk/>

Opsiwn 156 – Lleiniau clustogi o borfa i rwystro erydiad ac i ddal dŵr ffo

- Rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr opsiwn hwn.
- Ar ôl ei sefydlu, dylid cynnal y darn tir fel glaswelltir gyda'r borfa o leiaf 5cm o uchder.
- Rhaid cadw cofnod o'r gwaith sefydlu yn y Dyddiadur Gwaith gan ofalu ei fod ar gael i ni ei weld pan ofynnwn amdano.

Peidiwch â:

- Clirio unrhyw ffosydd sydd eisoes yn bodoli.
- Defnyddio plaladdwr, ffwngladdwr na gwenwyn malwod.
- Defnyddio calch nag unrhyw sylweddau eraill i newid asidedd y pridd.
- Llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Rowlio na llyfnu ag oged gadwyn.
- Rhoi porthiant atodol.
- Plannu coed.
- Gwneud unrhyw weithgaredd sy'n symud pridd.
- Caniatáu gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd.
- Adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled neu unrhyw strwythur newydd.
- Storio deunyddiau neu beiriannau.

Opsiwn 157 – Lleiniau clustogi o borfa i rwystro erydiad ac i ddal dŵr ffo; tirwedd ffosydd

- Rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr opsiwn hwn.
- Ar ôl ei sefydlu, dylid cynnal y darn tir fel glaswelltir gyda'r borfa o leiaf 5cm o uchder.
- Rhaid cadw cofnod o'r gwaith sefydlu yn y Dyddiadur Gwaith gan ofalu ei fod ar gael i ni ei weld pan ofynnwn amdano.

Peidiwch â:

- Clirio unrhyw ffosydd sydd eisoes yn bodoli.
- Defnyddio plaladdwr, ffwngladdwr na gwenwyn malwod.
- Defnyddio calch nag unrhyw sylweddau eraill i newid asidedd y pridd.
- Llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Rowlio na llyfnu ag oged gadwyn.
- Rhoi porthiant atodol.
- Plannu coed.
- Gwneud unrhyw weithgaredd sy'n symud pridd.
- Caniatáu gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd.
- Adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled neu unrhyw strwythur newydd.
- Storio deunyddiau neu beiriannau.

Opsiwn 158 – Lleiniau clustogi i rwystro erydiad ac i ddal dŵr ffo ar dir wedi'i aredig

- Rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr opsiwn hwn.
- Ar ôl ei sefydlu, dylid cynnal y darn tir fel glaswelltir gyda'r borfa o leiaf 5cm o uchder.
- Rhaid cadw cofnod o'r gwaith sefydlu yn y Dyddiadur Gwaith gan ofalu ei fod ar gael i ni ei weld pan ofynnwn amdano.

Peidiwch â:

- Clirio unrhyw ffosydd sydd eisoes yn bodoli.
- Defnyddio plaladdwr, ffwngladdwr na gwenwyn malwod.
- Defnyddio calch nag unrhyw sylweddau eraill i newid asidedd y pridd.
- Llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Rowlio na llyfnu ag oged gadwyn.
- Rhoi porthiant atodol.
- Plannu coed.
- Gwneud unrhyw weithgaredd sy'n symud pridd.
- Caniatáu gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd neu ddefnyddio fel trac.
- Adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled neu unrhyw strwythur newydd.
- Storio deunyddiau neu beiriannau.

Opsiwn 159 – Rheoli glaswelltir heb fewnbynnau rhwng 15 Hydref a 31 Ionawr

- Rhaid rheoli'r borfa trwy bori neu dorri er mwyn cynnal y darn tir fel glaswelltir gyda'r borfa o leiaf 5cm o uchder.
- Rhaid cofnodi pob gwasgariad o wrtaith, chwynladdwyr, plaladdwyr a phob mewnbwn arall fel sy'n ofynnol dan God y Fferm Gyfan.

Peidiwch â:

- Aredig, plannu, ail-hau na hau had.
- Gwasgaru gwrtiaith organig neu anorganig gan gynnwys gwrtiaith artiffisial, tail buarth, slyri neu ddŵr budr rhwng 15 Hydref a 31 Ionawr.
- Defnyddio unrhyw slag basig, calch, gwymon calchog, slwtsh papur gwastraff nac unrhyw wastraff arall o'r fferm neu oddi ar y fferm rhwng 15 Hydref a 31 Ionawr.
- Defnyddio unrhyw chwynladdwr rhwng 15 Hydref a 31 Ionawr, ac eithrio i sbot-chwynnu a rheoli chwyn niweidiol.
- Defnyddio pryfladdwr, ffwngladdwr na gwenwyn malwod rhwng 15 Hydref a 31 Ionawr
- Gadael i dda byw stablad (sathru) y pridd (gellir derbyn rhywfaint bach o stablad o fewn 5 metr i fylchau cae a mannau cyfyng).
- Gosod unrhyw systemau draenio newydd, addasu neu glirio ffosydd sydd eisoes yn bodoli.
- Llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Rhoi porthiant atodol.
- Plannu coed.
- Moeli'r pridd wrth i gerbydau ei rigoli.

- Gwneud unrhyw weithgaredd sy'n symud pridd.
- Caniatáu gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd.
- Adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled neu unrhyw strwythur newydd.
- Storio deunyddiau neu beiriannau.

Opsiwn 160 – Dim calch ar dir wedi'i wella na glaswelltir wedi'i ledwella ar briddoedd mawn

- Rhaid rheoli'r borfa trwy bori neu dorri er mwyn cynnal y darn tir fel glaswelltir gyda'r borfa o leiaf 5cm o uchder.

Peidiwch â:

- Defnyddio calch nag unrhyw sylweddau eraill i ostwng asidedd y pridd.
- Aredig, plannu, ail-hau na hau had.
- Gosod unrhyw systemau draenio newydd, addasu systemau draenio na chlirio ffosydd.
- Rhoi porthiant atodol.
- Gadael i dda byw stablad (sathru) y pridd (gellir derbyn rhywfaint bach o sathru o fewn 5 metr i fylchau cae a mannau cyfyng).
- Llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Plannu coed.
- Moeli pridd wrth i gerbydau ei rigoli.
- Gwneud unrhyw weithgaredd sy'n symud pridd.
- Caniatáu gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd.
- Adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled neu unrhyw strwythur newydd.
- Storio deunyddiau neu beiriannau.

Opsiwn 161 – Rheoli glaswelltir ar gyfer y frân goesgoch (bwydo)

- Rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr opsiwn hwn.
- Cynhaliwch fel glaswelltir trwy ei bori.
- Gwnewch yn siŵr bod o leiaf 80% o'r borfa rhwng 3 cm a 5 cm drwy gydol y flwyddyn.

Peidiwch â:

- Clirio unrhyw ffosydd sydd eisoes yn bodoli.
- Defnyddio plaladdwr, ffwngladdwr na gwenwyn malwod.
- Defnyddio calch nag unrhyw sylweddau eraill i newid asidedd y pridd.
- Torri na thocio llystyfiant ac eithrio i reoli chwyn niweidiol.
- Llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Rowlio na llyfnu ag oged gadwyn.
- Rhoi porthiant atodol.
- Plannu coed.
- Gwneud unrhyw weithgaredd sy'n symud pridd.
- Caniatáu gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd.
- Adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled neu unrhyw strwythur newydd.
- Storio deunyddiau neu beiriannau.

Opsiwn 162 – Cnwd ŷd yr hydref heb ei chwistrellu ar gyfer bras yr ŷd (nythu a bwydo)

- Rhaid sefydlu cnwd ŷd yr hydref cyn 31 Hydref o fewn y parcel(i) cymwys a nodir yn Adran 1.
- Rhaid rheoli'r arwynebedd lleiaf y gofynnir amdano yn y Contract bob blwyddyn.
- Rhaid i bob plot fod yn 2 hectar o leiaf, ac o leiaf 75 metr o led.
- Rhaid sefydlu'r cnwd mewn gwely had wedi'i drin.
- Cofnodwch y gwaith sefydlu, chwynnu â pheiriant, cynaeafu, torri, tocio, aredig, trin, ail hau a hau had, a'r dyddiad y mae'r pori'n cychwyn yn y Dyddiadur Gwaith, gan ofalu fod y Dyddiadur ar gael i ni ei weld pan ofynnwn amdano.

Peidiwch â:

- Hau o dan y cnwd
- Sefydlu'r cnwd drwy hau â dril neu fras-drin.
- Defnyddio peiriant i chwynnu cyn 25 Awst y flwyddyn ganlynol
- Defnyddio plaladdwyr, gwenwyn malwod na chwynladdwr (ac eithrio i sbot-chwynnu chwyn niweidiol) cyn 25 Awst y flwyddyn ganlynol. Gellir defnyddio ffwngladdwr os yw'n cael ei roi ar yr hadau cyn eu hau.
- Cynaeafu, torri neu docio cyn 25 Awst y flwyddyn ganlynol
- Caniatáu i dda byw bori cyn 25 Awst y flwyddyn ganlynol
- Aredig, plannu, ail hau na hau had ar ôl sefydlu'r cnwd hyd at 25 Awst y flwyddyn ganlynol

Opsiwn 163 – Cnwd haidd gwanwyn heb ei chwistrellu ar gyfer bras yr ŷd (nythu & bwydo)

- Rhaid sefydlu cnwd haidd gwanwyn rhwng 15 Mawrth a 15 Ebrill bob blwyddyn o fewn y parcel(i) cymwys a nodwyd yn Adran 1.
- Rhaid rheoli'r arwynebedd lleiaf y gofynnir amdano yn y Contract bob blwyddyn.
- Rhaid i bob plot fod yn 2 hectar o leiaf, ac o leiaf 75 metr o led.
- Rhaid sefydlu'r cnwd mewn gwely had wedi'i drin.
- Cofnodwch y gwaith sefydlu, chwynnu â pheiriant, cynaeafu, torri, tocio, aredig, trin, ail hau a hau had, a'r dyddiad y mae'r pori'n cychwyn yn y Dyddiadur Gwaith, gan ofalu fod y Dyddiadur ar gael i ni ei weld pan ofynnwn amdano.

Peidiwch â:

- Hau o dan y cnwd.
- Sefydlu'r cnwd drwy hau â dril neu fras–drin.
- Defnyddio peiriant i chwynnu cyn 15 Mawrth y flwyddyn ganlynol.
- Defnyddio plaladdwyr, gwenwyn malwod na chwynladdwr (ac eithrio i drin enghreifftiau unigol o chwyn niweidiol) cyn 15 Mawrth y flwyddyn ganlynol. Gellir defnyddio ffwngladdwr os yw'n cael ei roi ar yr hadau cyn eu hau.
- Gwasgaru gwrtaith organig na gwrtaith anorganig cyn 15 Mawrth y flwyddyn ganlynol
- Cynaeafu, torri neu docio cyn 15 Mawrth y flwyddyn ganlynol.
- Caniatáu i dda byw bori cyn 15 Mawrth y flwyddyn ganlynol.
- Gwneud unrhyw waith maes ar ôl sefydlu'r cnwd cyn 15 Mawrth y flwyddyn ganlynol

- Aredig, plannu, ail hau na hau had ar ôl sefydlu'r cnwd hyd at 15 Mawrth y flwyddyn ganlynol.

Opsiwn 164 – Rheoli glaswelltir er lles y gylfinir (nythu a bwydo cywion)

- Cynhaliwch fel glaswelltir trwy ei bori
- Rhwng 1 Ebrill a 15 Gorffennaf rhaid i 25% o'r borfa fod yn fyrrach na 5 cm, 25% rhwng 20 cm a 30 cm, a'r 50% arall yn fyrrach nag 20 cm.
- Rhaid cynnal gorchudd tenau o frwyn wedi'u gwasgaru ar hyd at 30% o'r arwynebedd, heb unrhyw dyfiant mawr, trwchus o frwyn.
- Cewch ddefnyddio tail buarth sydd wedi pydru rhwng 16 Gorffennaf a 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol.
- Rhaid cadw cofnod o unrhyw waith maes gan gynnwys torri neu docio yn y Dyddiadur Gwaith gan ofalu ei fod ar gael i ni ei weld pan ofynnwn amdano.

Peidiwch â:

- Gwasgaru mwy na 100 kilogram fesul hectar o nitrogen ar ffurf tail buarth mewn blwyddyn galendr.
- Gwasgaru gwrtaithe anorganig neu artiffisial, slyri na dŵr budr ar unrhyw adeg.
- Defnyddio plaladdwr, ffwngladdwr na gwenwyn malwod.
- Defnyddio calch nag unrhyw sylweddau eraill i newid asidedd y pridd.
- Aredig, plannu, ail hau na hau had.
- Gwneud unrhyw waith maes (gan gynnwys torri neu docio) mewn caeau wedi'i amgáu rhwng 1 Ebrill a 15 Gorffennaf
- Gosod unrhyw systemau draenio newydd, addasu systemau draenio na chlirio ffosydd.
- Llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Rowlio na llyfnu ag oged gadwyn.

- Rhoi porthiant atodol.
- Plannu coed.
- Gwneud unrhyw weithgaredd sy'n symud pridd.
- Caniatáu gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd.
- Adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled neu unrhyw strwythur newydd.
 - Storio deunyddiau neu beiriannau.

Opsiwn 165 – Rheoli glaswelltir er lles y gylfinir (bwydo)

- Cynhaliwch fel glaswelltir trwy ei bori.
- Rhwng 1 Ebrill a 15 Gorffennaf rhaid i 80% o'r borfa fod yn fyrrach na 5 cm
- Rhwng 31 Gorffennaf a 15 Mawrth y flwyddyn ganlynol rhaid i o leiaf 20% o'r borfa fod yn fyrrach na 7 cm, ac 20% yn dalach na 7 cm
- Rhaid cynnal gorchudd tenau o frwyn wedi'u gwasgaru ar hyd at 30% o'r arwynebedd, heb unrhyw dyfiant mawr, trwchus o frwyn.
- Cewch ddefnyddio tail buarth sydd wedi pydru rhwng 16 Gorffennaf a 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol.
- Rhaid cadw cofnod o unrhyw waith maes gan gynnwys torri neu docio yn y Dyddiadur Gwaith gan ofalu ei fod ar gael i ni ei weld pan ofynnwn amdano.

Peidiwch â:

- Gwasgaru mwy na 100 kilogram fesul hectar o nitrogen ar ffurf tail buarth mewn blwyddyn galendr.
- Gwasgaru gwrtaith anorganig neu artiffisial, slyri na dŵr budr ar unrhyw adeg.
- Defnyddio plaladdwr, ffwngladdwr na gwenwyn malwod.
- Defnyddio calch nag unrhyw sylweddau eraill i newid asidedd y pridd.
- Aredig, plannu, ail hau na hau had.
- Gwneud unrhyw waith maes (gan gynnwys torri neu docio) mewn caeau wedi'i amgáu rhwng 1 Ebrill a 15 Gorffennaf
- Gosod unrhyw systemau draenio newydd, addasu systemau draenio na chlirio ffosydd.
- Llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.

- Rowlio na llyfnu ag oged gadwyn.
- Rhoi porthiant atodol.
- Plannu coed.
- Gwneud unrhyw weithgaredd sy'n symud pridd.
- Caniatáu gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd.
- Adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled neu unrhyw strwythur newydd.
- Storio deunyddiau neu beiriannau.

Opsiwn 166 – Rheoli gweirgloddiau er lles y gylfinir (nythu)

- Rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar yr holl dir sy'n dod o dan yr opsiwn hwn ond y caniateir gwasgaru tail buarth bob yn ail flwyddyn.
- Cynhaliwch fel glaswelltir trwy bori a thorri gwair.
- Rhaid cadw da byw allan o'r cae o 1 Ebrill ymlaen bob blwyddyn.
- Torrwch unwaith y flwyddyn, ar ôl 15 Gorffennaf.
- Gadewch rhwng 5% a 10% heb ei dorri bob blwyddyn.
- Cynhaliwch yr adlodd gydag 80% o'r glaswelltau yn 5–15cm o uchder.
- Mae'n dderbyniol gwneud gwair neu wywair ond nid silwair. Rhaid i'r gwair neu wywair gael ei droi ddwywaith o leiaf.
- Rhaid mynd â'r deunydd a dorrwyd oddi ar y safle erbyn 1 Hydref, hyd yn oed os yw'r glaw wedi'i ddifetha.
- Cadwch gofnod o'r dyddiad pan gafodd da byw eu cau allan o'r cae, yn ogystal â'r gwaith torri a symud deunydd a dorrwyd oddi ar y safle yn y Dyddiadur Gwaith, gan ofalu fod y Dyddiadur ar gael i ni ei weld pan ofynnwn amdano.

Peidiwch â:

- Torri'n is na 2 cm.
- Pori am 4 wythnos ar ôl torri.
- Gwneud unrhyw waith maes rhwng 1 Ebrill a 15 Gorffennaf
- Clirio unrhyw ffosydd sydd eisoes yn bodoli.
- Defnyddio plaladdwr, ffwngladdwr na gwenwyn malwod.
- Defnyddio calch nag unrhyw sylweddau eraill i newid asidedd y pridd.

- Llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Rowlio na llyfnu ag oged gadwyn.
- Rhoi porthiant atodol.
- Plannu coed.
- Gwneud unrhyw weithgaredd sy'n symud pridd.
- Caniatáu gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd.
- Adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled neu unrhyw strwythur newydd.
- Storio deunyddiau neu beiriannau.

Opsiwn 167 – Rheoli glaswelltir er lles y cwtiad aur (bwydo)

- Cynhaliwch fel glaswelltir trwy ei bori
- Rhwng 15 Mawrth a 15 Mehefin rhaid i o leiaf 80% o'r borfa fod yn fyrrach na 5 cm.
- Rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi rhaid i o leiaf 80% o'r borfa fod yn dalach na 10 cm.
- Rhwng 15 Hydref a 15 Chwefror y flwyddyn ganlynol rhaid i o leiaf 20% o'r borfa fod yn fyrrach na 7 cm a rhaid i o leiaf 20% o'r glaswelltir fod yn dalach na 7 cm.
- Rhaid cynnal gorchudd tenau o frwyn wedi'u gwasgaru ar hyd at 10% o'r arwynebedd, heb unrhyw dyfiant mawr, trwchus o frwyn.
- Cewch ddefnyddio tail buarth sydd wedi pydru rhwng 30 Medi a 14 Mawrth y flwyddyn ganlynol.
- Cofnodwch y gwaith torri neu docio i reoli brwyn o chwyn yn y Dyddiadur Gwaith, gan ofalu fod y Dyddiadur ar gael i ni ei weld pan ofynnwn amdano.

Peidiwch â:

- Gwasgaru mwy na 100 kilogram fesul hectar o nitrogen ar ffurf tail buarth mewn blwyddyn galendr.
- Gwasgaru gwrtaith anorganig neu artiffisial, slyri na dŵr budr ar unrhyw adeg.
- Defnyddio plaladdwr, ffwngladdwr na gwenwyn malwod.
- Defnyddio calch nag unrhyw sylweddau eraill i newid asidedd y pridd.
- Aredig, plannu, ail hau na hau had.
- Gosod unrhyw systemau draenio newydd, addasu systemau draenio na chlirio ffosydd sydd eisoes yn bodoli.

- Llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Rowlio na llyfnu ag oged gadwyn rhwng 15 Mawrth a 30 30 Medi
- Rhoi porthiant atodol.
- Plannu coed.
- Gwneud unrhyw weithgaredd sy'n symud pridd.
- Caniatáu gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd.
- Adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled neu unrhyw strwythur newydd.
- Storio deunyddiau neu beiriannau.

Opsiwn 168 – Rheoli tir er lles y gornchwiglen (bwydo a nythu)

- Cynhaliwch fel glaswelltir trwy ei bori.
- Erbyn 31 Mawrth rhaid i o leiaf 80% o'r borfa fod yn fyrrach na 5 cm.
- Rhwng 1 Mai a 15 Gorffennaf rhaid i o leiaf 50% o'r borfa fod yn fyrrach na 7 cm, ac o leiaf 10% o'r borfa yn dalach na 10 cm.
- Rhwng 16 Gorffennaf a 15 Chwefror y flwyddyn ganlynol rhai i o leiaf 20% o'r borfa fod yn fyrrach na 7 cm a rhaid i o leiaf 20% o'r arwynebedd fod yn dalach na 7 cm.
- Rhaid cynnal gorchudd tenau o frwyn wedi'u gwasgaru ar hyd at 20% o'r arwynebedd, heb unrhyw dyfiant mawr, trwchus o frwyn.
- Dylai rhwng 5% a 10% o'r arwynebedd fod yn dir moel.
- Cewch ddefnyddio tail buarth sydd wedi pydru rhwng 16 Gorffennaf a 14 Mawrth y flwyddyn ganlynol.
- Rhaid cadw cofnod o unrhyw waith maes gan gynnwys torri neu docio yn y Dyddiadur Gwaith gan ofalu ei fod ar gael i ni ei weld pan ofynnwn amdano.
- Rhaid cadw Dyddiadur Stocio rhwng 1 Ebrill a 15 Gorffennaf bob blwyddyn.

Peidiwch â:

- Gwneud unrhyw waith maes (gan gynnwys torri neu docio) mewn caeau wedi'i amgáu rhwng 1 Ebrill a 15 Gorffennaf.
- Gwasgaru mwy na 100 kilogram fesul hectar o nitrogen ar ffurf tail buarth mewn blwyddyn galendr.
- Gwasgaru gwrtaith anorganig neu artiffisial, slyri na dŵr budr ar unrhyw adeg.
- Defnyddio plaladdwr, ffwngladdwr na gwenwyn malwod.
- Defnyddio calch nag unrhyw sylweddau eraill i newid asidedd y pridd.

- Pori caeau wedi'u hamgáu â defaid rhwng 1 Ebrill a 15 Gorffennaf.
- Aredig, plannu, ail hau na hau had.
- Gosod unrhyw systemau draenio newydd, addasu systemau draenio sydd eisoes yn bodoli neu glirio ffosydd sydd eisoes yn bodoli.
- Llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Rowlio na llyfnu ag oged gadwyn rhwng 1 Ebrill a 15 Gorffennaf
- Rhoi porthiant atodol.
- Plannu coed.
- Gwneud unrhyw weithgaredd sy'n symud pridd.
- Caniatáu gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd.
- Adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled neu unrhyw strwythur newydd.
- Storio deunyddiau neu beiriannau.

Opsiwn 169 – Cnydau yd gwanwyn, rēp had olew, had llin neu fwstard er lles y gornchwiglen (nythu)

- Rhaid sefydlu cnydau yd gwanwyn, rēp had olew, had llin neu fwstard erbyn 14 Ebrill bob blwyddyn o fewn y parcel(i) cymwys a nodwyd yn Adran 1.
- Rhaid rheoli'r arwynebedd lleiaf y gofynnir amdano yn Adran 1 bob blwyddyn.
- Rhaid sefydlu'r cnwd mewn gwely had wedi'i drin.
- Cofnodwch y gwaith sefydlu, chwynnu â pheiriant, cynaeafu, torri, tocio, aredig, trin, ail hau a hau had, a'r dyddiad y mae'r pori'n cychwyn yn y Dyddiadur Gwaith, gan ofalu fod y Dyddiadur ar gael i ni ei weld pan ofynnwn amdano.

Peidiwch â:

- Sefydlu'r cnwd drwy hau â dril neu fras–drin.
- Hau o dan y cnwd.
- Defnyddio peiriant i chwynnu cyn 1 Awst
- Defnyddio plaladdwyr, gwenwyn malwod na chwynladdwr (ac eithrio i sbot–chwynnu chwyn niweidiol) cyn 1 Awst . Gellir defnyddio ffwngladdwr os yw'n cael ei roi ar yr hadau cyn eu hau.
- Cynaeafu, torri neu docio cyn 1 Awst
- Aredig, plannu, ail hadu na hau had ar ôl sefydlu hyd at 1 Awst

Opsiwn 170 – Lleiniau gwyndwn er lles y gornchwiglen (nythu)

- Rhaid sefydlu lleiniau gwyndwn drwy aredig a phlannu gwely hadau cyn 14 Ebrill bob blwyddyn o fewn y parcel(i) cymwys a nodwyd yn Adran 1.
- Rhaid rheoli'r arwynebedd lleiaf y gofynnir amdano yn Adran 1 bob blwyddyn.
- Gadewch i'r plot aildyfu'n naturiol.
- Rhaid cadw cofnod o'r gwaith sefydlu yn y Dyddiadur Gwaith gan ofalu ei fod ar gael i ni ei weld pan ofynnwn amdano.

Ar ôl sefydlu'r gwely hadau nes 1 Awst **Peidiwch â:**

- Hau unrhyw gnydau
- Aredig, plannu, ail hau na hau had
- Gwneud unrhyw waith maes na defnyddio cerbydau.
- Gwneud unrhyw weithgaredd sy'n symud pridd
- Torri na thocio llystyfiant
- Rowlio na llyfnu ag oged gadwyn
- Defnyddio plaladdwr, ffwngladdwr na gwenwyn malwod
- Gwasgaru gwrtaith organig neu anorganig
- Storio tail, deunyddiau na pheiriannau
- Llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill
- Defnyddio fel trac
- Pori â da byw
- Rhoi porthiant atodol.
- Adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled neu unrhyw strwythur newydd.

Opsiwn 171 – Rheoli tir er lles mwyalchen y mynydd (bwydo)

- Cynhaliwch fel glaswelltir trwy ei bori.
- Rhwng 1 Ebrill a 31 Gorffennaf rhaid i 80% o'r borfa fod yn fyrrach na 5 cm.
- Rhwng 15 Awst a 15 Mawrth y flwyddyn ganlynol rhaid i o leiaf 20% o'r borfa fod yn fyrrach na 7 cm a 20% o'r borfa yn dalach na 7 cm.
- Rhaid cynnal gorchudd tenau o frwyn ar hyd at 30% o'r arwynebedd, heb unrhyw dyfiant mawr, trwchus o frwyn.
- Cewch ddefnyddio tail buarth sydd wedi pydru rhwng 31 Gorffennaf a 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol.
- Rhaid cadw cofnod o unrhyw waith maes gan gynnwys torri neu docio yn y Dyddiadur Gwaith gan ofalu ei fod ar gael i ni ei weld pan ofynnwn amdano.

Peidiwch â:

- Gwneud unrhyw waith maes (gan gynnwys torri neu docio) mewn caeau rhwng 1 Ebrill a 31 Gorffennaf.
- Gwasgaru mwy na 100 kilogram fesul hectar o nitrogen ar ffurf tail buarth mewn blwyddyn galendr.
- Gwasgaru gwrtaith anorganig neu artiffisial, slyri na dŵr budr ar unrhyw adeg.
- Defnyddio plaladdwr, ffwngladdwr na gwenwyn malwod.
- Defnyddio calch nag unrhyw sylweddau eraill i newid asidedd y pridd.
- Aredig, plannu, ail hau na hau had.
- Gosod unrhyw systemau draenio newydd, addasu systemau draenio na chlirio ffosydd.
- Llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.

- Rowlio na llyfnu ag oged gadwyn rhwng 1 Ebrill a 15 Gorffennaf.
- Rhoi porthiant atodol.
- Plannu coed.
- Gwneud unrhyw weithgaredd sy'n symud pridd.
- Caniatáu gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd.
- Adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled neu unrhyw strwythur newydd.
- Storio deunyddiau neu beiriannau.

Opsiwn 172 – Rheoli Perllan

- Rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr opsiwn hwn.
- Cwblhewch unrhyw waith tocio neu blannu coed ffrwythau fel y nodir yn yr Atodlen Gwaith Cyfalaf yn y Contract.
- Gadewch bren marw ar y coed oni bai ei fod wedi'i heintio neu'n achosi niwed i'r goeden.
- Os bydd pren marw yn cael ei symud i atal niwed i'r coed, dylid ei osod mewn pentwr mewn man lled gysgadol er lles ffyngau ac infertebratau.
- Tynnwch ffotograffau o unrhyw ddeunydd anniogel neu heintiedig er mwyn eu dangos os oes angen.
- Rhaid rheoli trwy dorri neu bori i gynnal porfa amrywiol ei uchder, gydag 80% o'r borfa rhwng 7 cm a 20 cm. Gadewch rhwng 5% a 10% heb ei dorri bob blwyddyn.
- Rhaid cadw cofnod o'r gwaith sefydlu a thocio yn y Dyddiadur Gwaith gan ofalu ei fod ar gael i ni ei weld pan ofynnwn amdano.

Peidiwch â:

- Cwmpo coed.
- Clirio unrhyw ffosydd sydd eisoes yn bodoli.
- Defnyddio plaladdwr, ffwngladdwr na gwenwyn malwod.
- Defnyddio calch nag unrhyw sylweddau eraill i newid asidedd y pridd.
- Llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Rowlio na llyfnu ag oged gadwyn.
- Gwneud unrhyw weithgaredd sy'n symud pridd.

- Caniatáu gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd.
- Adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled neu unrhyw strwythur newydd.
- Storio deunyddiau neu beiriannau.

Opsiwn 173 – Rheoli coridor nant

- Rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr opsiwn hwn.
- Rhaid cadw'r holl dda byw allan.
- Cofnodwch y gwaith torri neu docio i reoli chwyn niweidiol yn y Dyddiadur Gwaith, gan ofalu fod y Dyddiadur ar gael i ni ei weld pan ofynnwn amdano.

Peidiwch â:

- Clirio unrhyw ffosydd sydd eisoes yn bodoli.
- Defnyddio plaladdwr, ffwngladdwr na gwenwyn malwod.
- Defnyddio calch nag unrhyw sylweddau eraill i newid asidedd y pridd.
- Torri na thocio llystyfiant ac eithrio i reoli chwyn niweidiol.
- Llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Rowlio na llyfnu ag oged gadwyn.
- Rhoi porthiant atodol.
- Plannu coed.
- Gwneud unrhyw weithgaredd sy'n symud pridd.
- Caniatáu gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd.
- Adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled neu unrhyw strwythur newydd.
- Storio deunyddiau neu beiriannau.

Opsiwn 174 – Llain glustogi o borfa arw i rwystro erydiad ac i ddal dŵr ffo ar dir o dan gnwd âr

- Rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr opsiwn hwn.
- Rhaid cadw'r holl dda byw allan
- Rhaid cadw cofnod o waith sefydlu'r cnwd a'r gwaith torri neu docio i reoli chwyn niweidiol yn y Dyddiadur Gwaith, gan ofalu fod y Dyddiadur ar gael i ni ei weld pan ofynnwn amdano.

Peidiwch â:

- Clirio unrhyw ffosydd sydd eisoes yn bodoli.
- Defnyddio plaladdwr, ffwngladdwr na gwenwyn malwod.
- Defnyddio calch nag unrhyw sylweddau eraill i newid asidedd y pridd.
- Torri na thocio llystyfiant ac eithrio i reoli chwyn niweidiol.
- Llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Rowlio na llyfnu ag oged gadwyn.
- Rhoi porthiant atodol.
- Plannu coed.
- Gwneud unrhyw weithgaredd sy'n symud pridd.
- Caniatáu gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd neu ddefnyddio fel trac.
- Adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled neu unrhyw strwythur newydd.
- Storio deunyddiau neu beiriannau.

Opsiwn 175 – Rheoli porfa arw; tir wedi'i hamgáu

- Rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr opsiwn hwn.
- Cynhaliwch fel glaswelltir trwy dorri neu bori, gan atal prysgwydd rhag ymledu. Ewch â deunydd swmpus rydych wedi'i dorri o'r safle.
- Rhaid i'r borfa fod o uchder amrywiol gydag o leiaf 75% o'r borfa a'r blodau yn dalach na 20 cm.
- Rhaid gadael pren marw ar y llawr os yw wedi'i nodi ar Fap eich Contract Opsiynau.
- Cofnodwch y gwaith torri neu docio i reoli prysgwydd yn y Dyddiadur Gwaith, gan ofalu fod y Dyddiadur ar gael i ni ei weld pan ofynnwn amdano.

Peidiwch â:

- Clirio unrhyw ffosydd sydd eisoes yn bodoli.
- Defnyddio plaladdwr, ffwngladdwr na gwenwyn malwod.
- Defnyddio calch nag unrhyw sylweddau eraill i newid asidedd y pridd.
- Torri'n is na 20 cm.
- Llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Rowlio na llyfnu ag oged gadwyn.
- Rhoi porthiant atodol.
- Plannu coed.
- Gwneud unrhyw weithgaredd sy'n symud pridd.
- Caniatáu gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd.
- Adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled neu unrhyw strwythur newydd.

■ Storio deunyddiau neu beiriannau.

Opsiwn 176 – Coetir – Pori ysgafn

- Rhaid cadw at reolau cynefin Cod y Fferm Gyfan ar y tir sy'n dod o dan yr Opsiwn hwn.
- Rhaid cadw at y lefelau pori uchaf ac isaf sy'n cael eu dangos isod. Ceir cynllun pori llawn yn y Contract.

	Uchafswm	Isafswm
1 Ebrill – 30 Medi	0.00 uned da byw/ha	0.00 uned da byw/ha
1 Hydref – 31 Mawrth	0.40 uned da byw/ha	0.10 uned da byw/ha

- Cadwch ddyddiadur stocio, gan ofalu fod y Dyddiadur ar gael i ni ei weld pan ofynnwn amdano.

Peidiwch â:

- Cwmpo coed.
- Clirio unrhyw ffosydd sydd eisoes yn bodoli.
- Defnyddio plaladdwr, ffwngladdwr na gwenwyn malwod.
- Defnyddio calch nag unrhyw sylweddau eraill i newid asidedd y pridd.
- Torri na thocio llystyfiant.
- Llosgi llystyfiant neu ddeunyddiau eraill.
- Rowlio na llyfnu ag oged gadwyn.
- Plannu coed.
- Rhoi porthiant atodol i dda byw arno.
- Gwneud unrhyw weithgaredd sy'n symud pridd.
- Caniatáu gweithgareddau cerbydau oddi ar y ffordd.

- Adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled neu unrhyw strwythur newydd.
- Storio deunyddiau neu beiriannau.

Opsiwn 400 – Taliad rheoli ychwanegol; rheoli stoc

- Cydymffurfiwch â'r cynllun rheoli stoc yn y Contract y cytunwyd arno gyda Rheolwr eich Contract.
- Bydd angen cadw Dyddiadur Stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.

Peidiwch â:

- Gadael i'r stoc achosi niwed i nodweddion archeolegol, pridd sy'n agored i niwed na llystyfiant sydd dan fygythiad trwy eu gorbori / tanbori / stablad (sathru). .

Opsiwn 401 – Taliad rheoli ychwanegol; pori cymysg

- Rhaid i o leiaf 30% o'r Unedau Da Byw (UDB) fod yn wartheg pori yn ystod pob blwyddyn galendr.
- Rhaid i o leiaf 15% o'r Unedau Da Byw (UDB) fod yn ddefaid pori yn ystod pob blwyddyn galendr.
- Bydd angen cadw Dyddiadur Stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.

Opsiwn 402 – Taliad rheoli ychwanegol; rheoli llosgi

- Rhaid cydymffurfio â'r cynllun llosgi dan reolaeth y cytunwyd arno gyda Rheolwr eich Contract.
- Rhaid cydymffurfio â'r rheoliadau llosgi a chynnal eich cynllun llosgi, gan ofalu ei fod ar gael i ni ei weld pan ofynnwn amdano.
- Rhaid torri ffos dân o amgylch y safleoedd a fydd yn cael eu llosgi. Wrth dorri ffos dân, dylid cytuno ar raglen dorri ar gyfer pob blwyddyn y Contract.
- Bydd y cynllun yn dangos pa ddarnau o dir fydd yn cael eu llosgi. Fel canllaw, dylai'r rhannau sy'n cael eu llosgi fod rhwng 0.25 ac 1 hectar, yn unol â'r hyn y cytunwyd arno gyda Rheolwr eich Contract.

Peidiwch â:

- Llosgi'r un darn o llystyfiant fwy nag unwaith mewn pum mlynedd.
- Llosgi llystyfiant gweundir byr (llai na 10cm) neu weundir ar haenen denau o bridd (llai na 5cm o ddyfnder) neu ar lethrau serth (1 mewn 2 neu lai), neu lle mae dros 50% yn graig neu sgri.
- Llosgi wrth ochr rhedyn.
- Llosgi safleoedd lle mae cofnod o'r ferywen.
- Llosgi gweundir llawn mwsogl lle mae *Sphagnum capillifolium* yn bresennol.
- Llosgi mwy na thraean llystyfiant gweundir yn ystod y cyfnod o bum mlynedd.
- Wrth dorri ffosydd tân, ni ddylid torri mwy na thraean llystyfiant gweundir yn ystod y cyfnod o bum mlynedd.

Opsiwn 403 – Taliad rheoli ychwanegol; ailwlychu

- Cydymffurfiwch â'r cynllun ailwlychu y cytunwyd arno gyda Rheolwr eich Contract.
- Porwch y safle yn unol â'ch cynllun pori yn y Contract..

Opsiwn 404 – Taliad rheoli ychwanegol; ailwlychu (tir wedi'i wella)

- Cydymffurfiwch â'r cynllun ailwlychu y cytunwyd arno gyda Rheolwr eich Contract.
- Porwch y safle yn unol â'ch cynllun pori yn y Contract.

Opsiwn 405 – Taliad rheoli ychwanegol; pori er lles infertebratau mewn tail

- Rheolwch drwy bori gwartheg, merlod neu geffylau yn unig rhwng 1 Mawrth a 31 Gorffennaf bob blwyddyn.
- Peidiwch â chaniatáu da byw sydd wedi'u trin â chynnyrch avermectin rhwng 1 Mawrth a 31 Gorffennaf neu yn ystod y 6 wythnos cyn cychwyn pori.
- Peidiwch â chaniatáu da byw sydd wedi'u trin â bolws sy'n cynnwys avermectin yn ystod y tymor pori presennol.
- Cadwch Ddyddiadur Stocio i nodi pa anifeiliaid unigol sydd wedi pori'r tir rhwng 1 Mawrth a 31 Gorffennaf ac am ba hyd.
- Rhaid cadw cofnodion meddygaeth ar gyfer trin llyngyr mewn da byw sy'n pori ar y parseli tir, a'u dangos pan ofynnwn amdanynt.

Opsiwn 411 – Taliad rheoli ychwanegol; lleihau lefelau stocio

- Cydymffurfiwch â'r cynllun pori yn y Contract sy'n nodi'r gostyngiad ychwanegol mewn stoc sy'n ofynnol.
- Bydd angen cadw Dyddiadur Stocio a'i ddarparu pan ofynnir amdano.

Atodiad 1 – Sut i ddweud y gwahaniaeth rhwng tir cynefin a thir wedi'i wella

Canllaw yw'r tabl ar y dudalen hon i'ch helpu yn unig i wahaniaethu rhyngddynt. Holwch am gyngor proffesiynol os nad ydych yn siŵr:

Mae'n bwysig iawn eich bod chi'n gallu dweud y gwahaniaeth rhwng tir wedi'i wella a thir cynefin. Mae hyn yn hanfodol er mwyn ichi allu diogelu cynefin, yn unol â Chod y Fferm Gyfan ac er mwyn ichi allu dewis Opsiynau Rheoli priodol i'w cynnal yn y mannau mwyaf addas i sicrhau'r manteision amgylcheddol mwyaf posibl. Dylai'r tabl isod eich helpu gyda'r broses.

Prif Ystyriaethau	
Cynefin	Tir Wedi'i Wella
Cyfansoddiad y Llystyfiant Llai na 25% o'r llystyfiant yn rhywogaethau amaethyddol sydd wedi'u hau, gan gynnwys rhygwellt a meillion gwyn.	Cyfansoddiad y Llystyfiant Mwy na 25% o'r llystyfiant yn rhywogaethau amaethyddol sydd wedi'u hau, gan gynnwys rhygwellt a meillion gwyn.
Hanes Rheoli Amaethyddol Blaenorol Mae llawer o'r arferion rheoli hyn wedi'u cynnal ar y tir. ■ Nid yw'n debygol o fod wedi'i aredig na'i ail-hau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. ■ Heb gael fawr ddim gwrtaith anorganig / tail buarth, os o gwbl. ■ Cynhyrchiant isel – dim ond unwaith bob blwyddyn y ceir cnwd o wair neu	Hanes Rheoli Amaethyddol Blaenorol Mae o leiaf un o'r arferion rheoli hyn wedi'i gynnal ar y tir. ■ Tir â'r neu dir pori sydd wedi'i aredig a'i ail-hau yn rheolaidd fel rhan o'r drefn reoli amaethyddol arferol. ■ Wedi cael llawer iawn o wrtaith anorganig / tail buarth / slyri / slwtsh. ■ Cynhyrchiant uchel – yn aml ceir dau neu dri thoriad o silwair bob

silwair ohono. ■ Mae'n cael ei ladd fel arfer ar gyfer gwair. ■ Mae'r draeniad yn wael – mae'n gallu mynd yn wlyb neu'n frwynog ond gall fod yn sych iawn er enghraifft os yw ar is–haen ag iddi ddraeniad da megis calchfaen.	blwyddyn neu un cnwd mawr o wair. Ar y cyfan, yn cael ei ystyried yn dir cynhyrchiol da. ■ Mae'n cael ei dorri fel arfer ar gyfer silwair. ■ Wedi'i ddraenio'n dda fel arfer.
Blodau a Glaswelltau Gwyllt ■ Weithiau mae ganddo amrywiaeth dda o flodau a glaswelltau gwyllt gwahanol sy'n nodweddiadol o'r math o bridd. Gall y blodau gwyllt gynnwys y pengaled, y gribell felen, llygad llo mawr, tresgl y moch a theim. ■ Mae rhywogaethau glaswelltir yn ymledu i bob rhan o'r cae fel arfer – weithiau bydd mwy o dan flodau nag o dan laswellt.	Blodau a Glaswelltau Gwyllt ■ Amrywiaeth gyfyngedig iawn o flodau gwyllt. Mae'r mathau nodweddiadol o flodau a geir ar laswelltir wedi'i wella yn cynnwys y blodyn melyn ymlusgol, ysgallen y maes, dail tafol, danadl a gwlydd y dom. ■ Gorchuddir y rhan fwyaf o'r cae â nifer fach iawn o rywogaethau – rhywogaethau amaethyddol fel arfer megis rhygwellt neu feillion gwyn.
Bywyd Gwyllt Cysylltiedig ■ Gwelir amrywiaeth eang o infertebrata (glöynnod byw, ceiliogod rhedyn, chwilod a thrychfilod eraill) yn aml yn ystod misoedd yr haf. Twmpathau morgrug o bryd i'w gilydd. ■ Rhydwyr sy'n nythu er enghraifft gylfinirod, giachod, cornchwiglod.	Bywyd Gwyllt Cysylltiedig ■ Ychydig iawn o fywyd gwyllt cysylltiedig. Amrywiaeth gyfyngedig iawn o infertebrata a dim twmpathau morgrug. ■ Gall rhai glaswelltiroedd wedi'u gwella gynnal poblogaethau o anifeiliaid gwyllt pwysig er enghraifft cornchwiglod.

Tir wedi'i wella

Mae pob llystyfiant sy'n cynnwys mwy na 25% o rywogaethau amaethyddol sydd wedi'u hau, gan gynnwys rhygwellt a meillion gwyn, yn cyfrif fel tir wedi'i wella.

Atodiad 2 – Tablau Cryno Cod y Fferm Gyfan ac Opsiynau Rheoli, Cyfradd Dalu ac Uned

Cod y Fferm Gyfan	Cyfradd Dalu – £ yr Hectar	Uned
	15.00	Hyd at 20.00 ha
	8.00	20.01 i 50.00 ha
	2.75	50.01 i 100.00 ha
	Dim taliad ychwanegol	Dros 100 ha

Rhif yr Opsiwn	Opsiwn Rheoli	Cyfradd Dalu (£)	Uned
5	Amodau rheoli manylach ar gyfer rheoli perthi (gwrychoedd)	0.27	m
14	Chwistrellu 100% o'r slyri	17.00	ha
14b	Chwistrellu 75% o'r slyri	12.50	ha
15	Tir pori parhaol heb fewnbynnau	94.00	ha
15c	Tir pori parhaol heb fewnbynnau ac â phori cymysg	106.00	ha
19	Glaswelltir gwlyb	107.00	ha
19b	Glaswelltir gwlyb – pori cymysg	119.00	ha
20	Gweundir	77.00	ha
20b	Gweundir – pori cymysg	89.00	ha
21	Morfa heli	135.00	ha
21b	Morfa heli – pori cymysg	147.00	ha
22	Gweirglodd	154.00	ha
25	Twyni tywod	112.00	ha
25b	Twyni tywod – pori cymysg	124.00	ha
27	Ymyl o wyndwn	500.00	ha
28	Cadw sofr dros y gaeaf	122.00	ha
30	Ydau neu godlysiau heb eu chwistrellu	284.00	ha
31	Ydau heb eu chwistrellu, gyda sofr dros y gaeaf	440.00	ha
32b	Gwreiddgnydau heb eu chwistrellu	497.00	ha

Rhif yr Opsiwn	Opsiwn Rheoli	Cyfradd Dalu (£)	Uned
33	Cnwd gorchudd i anifeiliaid gwyllt	604.00	ha
34	Talar o ŷd heb ei gynaeafu	525.00	ha
34b	Talar o ŷd heb ei wrteithio na'i chwistrellu	445.00	ha
37	Bridiau Prydeinig brodorol prin	49.00	UDB
41a	Pori ar dir agored	58.00	ha
41b	Pori ar dir agored â phori cymysg	71.00	ha
100	Coetir di–stoc	80.28	ha
101	Plannu coed a phrysgwydd trwy blannu	345.27	ha
102	Coed a phrysgwydd – aildyfiant naturiol	341.19	ha
103	Prysgwydd di–stoc	140.49	ha
104	Coetir pori	78.30	ha
106	Parciau a gerddi	86.22	ha
109	Glaswelltir metelaidd	81.06	ha
115	Gweundir sych – llai na 50% yn eithin	89.74	ha
116	Gweundir sych – mwy na 50% yn eithin	89.74	ha
117	Gweundir gwlyb – llai na 60% yn laswellt y gweunydd	64.29	ha
118	Gweundir gwlyb – mwy na 60% yn laswellt y gweunydd	57.60	ha
119	Sefydlu gweundir	283.69	ha
120	Glaswelltir asidig heb ei wella	242.08	ha
121	Glaswelltir asidig heb ei wella (tir pori)	189.09	ha
122	Glaswelltir asidig heb ei wella (caeau gwair)	248.95	ha
123	Glaswelltir niwtral heb ei wella (tir pori)	161.39	ha
124	Glaswelltir niwtral heb ei wella (gweirglodd)	221.25	ha
125	Glaswelltir niwtral heb ei wella (tir pori)	161.39	ha
126	Glaswelltir niwtral heb ei wella (caeau gwair)	221.25	ha
128	Glaswelltir calchaid heb ei wella	228.03	ha

Rhif yr Opsiwn	Opsiwn Rheoli	Cyfradd Dalu (£)	Uned
129	Glaswelltir calchaid heb ei wella (tir pori)	160.99	ha
130	Glaswelltir calchaid heb ei wella (caeau gwair)	220.85	ha
131	Troi tir âr yn dir pori (heb ei wrteithio)	245.88	ha
132	Troi glaswelltir wedi'i wella yn laswelltir wedi'i led-wella (caeau gwair)	234.50	ha
133	Glaswelltir gwlyb	151.39	ha
134	Glaswelltir gwlyb (tir pori)	241.67	ha
139	Cors – llai na 50% yn laswellt y gweunydd	189.93	ha
140	Cors – mwy na 50% yn laswellt y gweunydd	151.39	ha
141	Adfer cors (dim pori)	204.78	ha
142	Adfer cors (tir pori)	280.21	ha
143	Ffen	129.44	ha
144	Adfer ffen (dim pori)	204.78	ha
145	Adfer ffen (tir pori)	233.65	ha
146	Gwelyau cyrs di-stoc	67.03	ha
147	Creu gwelyau cyrs	401.40	ha
148	Glaswelltir yr arfordir	186.68	ha
149	Adfer morfa heli (dim pori)	268.17	ha
150	Creu morfa heli	242.08	ha
151	Creu graean a thwyni	300.63	ha
153	Meillion coch	254.88	ha
155	Cynllun rheoli maethynnau	250.00	eitem
156	Lleiniau clustogi i rwystro erydiad	146.32	ha
157	Lleiniau clustogi i rwystro erydiad – ffosydd	204.78	ha
158	Lleiniau clustogi i rywstro erydiad o dir âr	379.80	ha
159	Glaswelltir heb fewnbynau 15 Hyd – 31 Ion	44.22	ha
160	Dim calch ar dir mawn	53.70	ha

Rhif yr Opsiwn	Opsiwn Rheoli	Cyfradd Dalu (£)	Uned
161	Rheoli glaswelltir – brân goesgoch	118.36	ha
162	Ydau hydref heb eu chwistrellu – bras yr yd	325.81	ha
163	Haidd gwanwyn heb ei chwistrellu – bras yr yd	455.88	ha
164	Rheoli glaswelltir er lles y gylfinir (nythu a chywion)	78.22	ha
165	Rheoli glaswelltir er lles y gylfinir (oedolion)	78.22	ha
166	Rheoli gweirgloddiau er lles y gylfinir (nythu)	194.36	ha
167	Rheoli glaswelltir er lles y cwtiaid aur	78.22	ha
168	Rheoli glaswelltir er lles y gornchwiglen (bwydo a nythu)	78.22	ha
169	Cnydau heb eu chwistrellu er lles y gornchwiglen (nythu)	302.82	ha
170	Lleiniau gwyndwn er lles y gornchwiglen (nythu)	497.02	ha
171	Rheoli glaswelltir er lles mwyalchen y mynydd (bwydo)	78.22	ha
172	Rheoli Perllan	204.78	ha
173	Rheoli coridor nant	0.03	m ²
174	Llain glustogi o borfa arw	0.04	m ²
175	Rheoli porfa arw wedi'i hamgáu	254.92	ha
176	Coetir – pori ysgafn	57.87	ha
400	Rheoli stoc	18.00	ha
401	Pori cymysg	12.00	ha
402	Rheoli llosgi	220.80	hyd at 3 ha
		96.00	3.1 i 5 ha
		12.00	5.1 i 10 ha

Rhif yr Opsiwn	Opsiwn Rheoli	Cyfradd Dalu (£)	Uned
		0.00	dros 10 ha
403	Ailwlychu	25.38	ha
404	Ailwlychu (tir wedi'i wella)	39.60	ha
405	Pori er lles infertebratau tail	28.08	ha
411	Lleihau lefelau stocio	267.60	UDB